

Anrhydeddau lleol

Cyhoeddwyd enwau tri o unigolion lleol adnabyddus a fydd yn cael eu derbyn i'r Orsedd drwy anrhydedd yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym Môn eleni.



Yn derbyn y Wisg Las bydd Phyllis Ellis o Benisarwaun, sydd wedi bod yn un o arweinwyr ei chymuned leol ers nifer helaeth o flynyddoedd, gan wasanaethu fel cynghorydd cymuned, llywodraethwr ysgol a chadeirydd y neuadd gymunedol a'r eisteddfod bentref. Bu hefyd yn gadeirydd y mudiad Cefn, ac mae'n ymddiriedolwr ac ysgrifennydd y Bwrdd yn Nant Gwrtheyrn.



Hefyd yn derbyn y Wisg Las mae Hugh Price Hughes o Fethel; enw cyfarwydd iawn i ddarllenwyr yr "Eco" oherwydd ei golofn bysgota hynod boblogaidd yn y papur hwn ers llawer iawn o flynyddoedd. Mae hefyd yn ysgrifennu'n achlysurol i'r Herald Cymraeg. Bu'n ysgrifennydd Cymdeithas Bysgota Seiont, Gwyrfaï a Llyfni ers blynyddoedd, ac mae'n ymgyrchwr brwd dros gadwraeth a gwarchod y torgoch.

I gyfarch Phyllis a Huw ar eu derbyn i'r Orsedd

*Huw, Phyllis, dau gaffaeliad, - dau o'n bro
dau'n brawf o ymroddiad;
ym Môn, cawn ein dymuniad,
rhoi gwisg las ar gwysi gwlad.*



Yn derbyn y Wisg Werdd mae Sian Wyn Gibson, a ddaw'n wreiddiol o Ddeiniolen, ond yn byw yn Llanwnda bellach. Mae'n adnabyddus i gynulleidfaoedd led-led Cymru a thu hwnt fel cantores broffesiynol, ond wedi dychwelyd i'w chynefin canolbwyntiodd ar waith hyfforddi, ac y mae nifer helaeth o'n cantorion ifanc disgleiriaf wedi elwa o'i dawn a'i phrofiad.



Mae'ractor amryddawn Llion Williams o Bontrugyn derbyn Cymrodoriaeth er Anrhydedd o Goleg Prifysgol Bangor. Yn gynharach eleni yn Gwobrau Theatr Cymru am 2017 cyhoeddwyd mai Llion oedd wedi ennill am y Perfformiad Gorau yn Saesneg a'r Perfformiad Gorau yn Gymraeg; y tro cyntaf i unrhyw actor ennill y ddwy wobwr hon yn yr un flwyddyn. Enillodd y Perfformiad Gorau yn Saesneg am y ddrama 'Belonging/Perthyn', a'r Perfformiad Gorau yn Gymraeg am y ddrama 'Chwalfa'.

ECO'r Wyddfa

CYMRAG

**RHIF 455
Mehefin 2017**

Argraffwyd gan
Wasg Dwyfor

Penygroes 01286 881911

SWYDDOGION A GOHEBWYR

**Straeon ac erthyglau
ar e-bost i
Dafydd Whiteside Thomas
Bron y Nant, Llanrug
01286 673515
ecorwyddfa@gmail.com**

CADEIRYDD

Y PWYLLGOR GWAITH

Gwyn Parri, Cynefin, Deiniolen.

GOLYGYDD CHWARAEON

Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.
(01248) 670115

GOLYGYDD YR IFANC

Marged Rhys
marged_3@hotmail.com

FFOTOGRAFFWR

Gwynnaf Hughes, Hafan,
Llanrug (672221)
glasgoed@hotmail.com

TREFNYDD HYSBYSEBION

Rhian Elin George, Sw'n yr Engan,
Brynrefail (01286) 872306
ebost hysbysebioneco@yahoo.co.uk

TREFNYDD ARIANNOL

Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (01286 674839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST

Olwen Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (01286 674839)

TREFNYDD BWNDELU

Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir,
Dinorwig (870292)

TREFNYDD DOSBARTHU

Hefin Jones, Pantmwyn, Llanrug.
01286 673838

GOHEBWYR PENTREFI

DEINIOLEN: Nia Gruffudd (872133)

BETHEL: Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl,
Bethel. (01248) 670115

BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys Roberts,
Godre'r Coed (870580)

CAEATHRO: Rhiannon Roberts,
Cefn Rhos Isaf, Penrhos.
rhiannonmai@btinternet.com

CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen,
Bodafon, Ceunant (650799)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glanrafon (872275)

DINORWIG: Marian Jones, Minallt,
7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)

LLANBERIS: Eifion Roberts,
Sw'n-y-Gwynt (870740)

LLANRUG: Eryl Roberts, Peris,
56 Glanffynnon (675384)

NANT PERIS: Kate Pritchard (872331)
neu econantperis@hotmail.com

PENISARWAUN: Katie Williams, Ty'n
Waen, Penisar-waun Ffôn 01248 671 622
ecopenisarwaun@hotmail.co.uk

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts,
Pantafon, Waunfawr (650570)

DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO 2017

Rhifyn
Gorffennaf/Awst

Copi i law
15 Mehefin

Bwndelu
30 Mehefin

Ble
Bethel

PWYSIG PWYSIG PWYSIG

Oherwydd amgylchiadau, bydd yn rhaid derbyn newyddion pentref, erthyglau, digwyddiadau ac unrhyw eitem i'w gynnwys yn rhifyn Gorffennaf/Awst o'r "Eco" ERBYN DYDD IAU, 15fed o FEHEFIN. Ni ellir cynnwys unrhyw eitem sy'n cyrraedd wedi'r dyddiad hwn. COFIWCH! Dyddiad cau rhifyn Gorffennaf/Awst yw DYDD IAU, 15fed o FEHEFIN. Bydd yr "Eco" allan o'r wasg ar ddydd Gwener 30ain o Fehefin.

LLYTHYRAU

Cyngerdd Corwynt Cariad

Annwyl Olygydd,
Tybed faint o ddarllenwyr Eco'r Wyddfa sy'n bwriadu mentro ar lwyfan Eisteddfod Genedlaethol Mon eleni? Dyma gyfle i chi gael ymarfer o flaen cynulleidfa ar lwyfan Theatr Seilo, Caernarfon, ar y Nos Fercher, Awst 2ail. Bwriadwn gynnal Cyngerdd Corwynt Cariad (Blas y Brifwyl) i godi arian at yr elusen sy'n cefnogi anffodusion y Philipinas, a'r gobaith yw cael amrywiaeth o eitemau safonol, lleol, fydd yn wledd i'r gynulleidfa. Bydd y tocynnau ar werth dechrau mis Gorffennaf am £5 yr un. Am ragor o wybodaeth cysylltwch yn fuan ag Edwina Morgan ar 01286 672708 neu drwy e-bost :
edwina.morgan@btinternet.com

Diolch a hwyll fawr ar y paratoi!

Edwina Morgan

Llys Caron, Lon Ddewi,, Caernarfon. LL55 1BH

Cofio Dinorwig

Annwyl Ddarllenwyr,
Dwi wrthi yn casglu deunydd am gyfnod plentyndod yn Ninorwig rhwng 1950 a 1962 ac yn meddwl tybed a fyddai darllenwyr Eco'r Wyddfa yn gallu fy helpu i ddod o hyd i'r wybodaeth ganlynol:-

1. Llun o giat chwarel ar agor neu gau wrth Ty'n Fawnog. Ydw'i yn iawn i ddweud bod y giat ar gau dros gyfnod y Nadolig fel nad oedd mynediad o Ty'n Fawnog i Allt Ddu?. Roedd y ffordd yn eiddo i'r Chwarel. Byddai'n dda cael gwybod am faint o ddyddiau oedd y giat yn cael ei chau dros gyfnod y Nadolig a pha bryd y daeth y drefn yma i ben. Ai ar ddiwrnod Nadolig yn unig yr oedd y chwarel ar gau?
2. Copiau o restrau tripiâu chwarel Purple Motors a Milburn, Gaerwen, Ynys Môn. Tripiâu pythefnos cyntaf ym mis Awst.
3. Lluniau o effaith gaef caled Rhagfyr 1956 a 1962/63 ar bentref Dinorwig ac Ysgol Dinorwig
4. Llun swyddfa bost Dinorwig a Fachwen. Hefyd angen gwybod dyddiad cau y ddau bost
5. Lluniau o fysis 'double deckers' yn Allt Ddu. Rhain oedd yn cludo chwarelwyr i'r chwarel yn y bore ac yn cael eu cadw yn Allt Ddu tan bod y chwarelwyr yn mynd adra o'u gwaith.
6. Lluniau o'r garej chwarel oedd yn Allt Ddu.
7. Lluniau o siop Co-op Deiniolen - llun tu allan a thu mewn a lluniau o'r staff. Hefyd angen cael gwybod dyddiad cau Co-op Deiniolen.
8. Lluniau o blant yn chwarae o flaen Bro Elidir neu Maes Eilian yn y pumdegau a chychwyn y chwedegau
9. Lluniau o ddisgyblion a staff Ysgol Dinorwig yn y pumdegau a dechrau chwedegau
10. Treuliodd fy nhad (Hugh Thomas) fel sawl un arall o ardal yr Eco gyfnod hir fel claf yn Ysbyty Llangwyfan ar ddechrau y chwedegau. Oes rhywun yn gwybod lle mae modd cael hanes, lluniau ac enwau y cleifion o'r ardal hon fu yno ar ddechrau y chwedegau.

Fe ellir cysylltu â fi drwy e-bost: tomos882@btinternet.com neu ffôn: 01286 674980 neu anfon ataf i Borthwen, Ael y Garth, Caernarfon. LL55 1HA. Efo deunydd fydd yn dod i law mi fyddaf yn sicrhau eu bod yn cael eu dychwelyd ac mi fyddaf yn fwy na pharod i ddod i nol y deunydd ar gyfer gwneud copiau. Diolch ymlaen llaw i unrhyw un fydd yn gallu fy helpu.

Llawer o ddiolch

Glyn Tomos

RHODDION

Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru

£50: Dienw, Bangor. Er cof am Mrs Olive Jones, 1 Hafod Oleu, Deiniolen.

£20: Nancy Jones, Canada; Er cof am Gwilym (Wil) a Jennie Hughes, Bryn Parc, Brynrefail; Hilda a Les Orritt, Moranedd, Cwm y Glo.; Tegid Roberts, Arwel, Pontrhythallt.

£12: Gomer Davies, Tregarth.

£10: Ronnie Williams, Aylestone; Margaret Roberts, Crud yr Awel, Deiniolen; Kevin Morris Jones, Newton Street, Llanberis; Gwyn Sam Davies, Bod Awel, Ffordd yr Orsaf, Llanrug; Mrs J. Williams, 1 Rhydfadog, Deiniolen; Mrs Nannie Evans, 26 Bryntirion, Penisarwaun.

£8: Alan Pritchard, Dolafon.

£3: 12 Hafod Oleu, Deiniolen.

Ymddiheuriad

Tra'n rhoi'r "Eco" gyda'i gilydd y mis hwn aeth y sustem rhoi acen grom ar 'w' ac 'y' yn wallgo. Am rhyw reswm nid yw'n effeithio ar unrhyw lafariad arall. Felly, bydd yn rhaid i chi roi acen grom yn y lle cywir eich hunan y mis hwn!
Golygydd.



**ORIEL
CWM**

CWM Y GLO


Gwasanaeth fframio Lluniau
o bob math
ar gael ar y safle
PRISIAU RHESYMBOL
Arddangosfa o luniau
Gwreiddiol gan artistiaid lleol

Richard S. Humphreys

**Ffon/ Ffacs-
(01286) 870882**

Yn ystod y mis aeth heibio

- Daeth ac aeth yr etholiadau lleol (gweler tudalen 25) yn eithaf digynnwrff, a hynny o bosib yng nghysgod y LECSIWN FAWR sydd ar fin cael ei chynnal er budd y Blaid Doriaidd os gellir rhoi sail i'r holl bolau piniwn. Ac fel arfer, mae pob math o ensyniadau'n cael eu taflu o'r naill blaid i'r llall er mwyn hoelio sylw'r etholwyr, a thrwch o'r rheini yn fwy na parod i'w coelio yn ol eu rhagfarnau personol eu hunain.
- Y Prif Weinidog yn cyhuddo gwleidyddion Ewrop o geisio dylanwadu ar ganlyniad yr etholiad. Y Blaid Lafur yn ei chyhuddo o "lapió'r Blaid Doriaidd ym maner Jac yr Undeb" er mwyn tynnu sylw oddi ar fethiannau ei llywodraeth. Newyddion da i Gymru felly. Gan nad yw Cymru'n cael ei chynrychioli ar y faner arbennig honno, fydd dim rhaid i ni boeni o gwbl am unrhyw fethiant.
- Lefelau yfed alcohol yn disgyn i'r lefel isaf ers 2005, a phobl ifanc yn fwyaf cyfrifol am hynny. Mae'n ymddangos mai'r grwp oedran rhwng 16 a 24 mlwydd oed sydd fwyaf tebygol o beidio yfed alcohol nac unrhyw grwp oedran arall. Mae arbenigwyr yn y maes yn dweud mai prisiau cynyddol alcohol a gwell dealltwriaeth o effeithiau alcohol sy'n gyfrifol am y lleihad.
- Y Post Brenhinol yn lansio set o ddeg stamp newydd yn arddangos adar, a hynny ar gyfer Diwrnod Cor y Wawr a oedd yn digwydd ganol fis Mai. Ymhlith yr adar mae dryw, eos, bronfraith, titw mawr, ehedydd a'r gog. A daeth cwyn gan amryw o adarwyr am na chafodd y Robin Goch ei gynnwys.
- Diwedd y tymor pel-droed a llwyddiannau i dimau pentref Llanruga'r Waunfawr (gweler y dudalen cefn). Ein llongyfarchion, nid yn unig i'r chwaraewyr a'r rheolwyr, ond i'r tim gweithgar o wirfoddolwyr sy'n cynnal y clybiau lleol hyn gydol y flwyddyn. Tybed pryd gwelir ail-sefydlu timau Bethel a Deiniolen?
- Cyngorwyr Llafur a Thoriaidd yn ymuno'n glymblaid ar rai o gynghorau lleol yr Alban er mwyn cadw'r cenedlaetholwyr rhag rheoli. Yr aelodau Llafur yn cael eu cosbi – ac yn ymddiswyddo o'u plaid, ond yn aros ar y cyngor fel aelodau annibynnol! Gan adael yr etholwyr druan yn pendroni i bwy ac i ba blaid yr aeth eu pleidlais.
- Ymlaen felly efo'r sioe chwil nes i'r hyrddi-gyrddi gyrraedd ei phenllanw ar Fehefin 8fed. Gobeithio y cewch eich plesio!



Mêc-ofyr i'r Ceiliog Mawr

Mae'n ymddangos fod cryn dir-lunio'n mynd ymlaen o amgylch y Ceiliog Mawr. Ond i ba bwrpas?

CLWB CINIO ARFON

Shirley Owen o Aberteifi yn wreiddiol ond bellach o Benygroes ddaeth draw yn westai Mis Mai. Mae Shirley yn wraig I John Bryn, cyn-athro yn Ysgol Dyffryn Nantlle ond pel-droediwr talentog I Lanber dymhorau'n ol. Ond nid, gyrfa John Bryn oedd dan sylw.

Mae Shirley yn Swyddog Dysgu Treftadaeth Cymunedol Canolfan Storiol ym Mangor. Mae'r adeilad erbyn hyn yn cynnwys amgueddfa, galeri, siop a chaffi. Ers ei hagor mae wedi denu nifer dda o ymwelwyr. Un o'i chryfderau yw'r pwyslais ar hanes lleol ac agweddau o fywyd cynhenid yr ardal. Mae symud I'r adeilad drws nesaf I Orsaf yr Heddlu ar Ffordd Gwynedd ym Mangor wedi galluogi'r staff I ymledu'r wybodaeth. Cyfyng iawn oedd y gofod yn yr hen adeilad, ond nid felly yn yr adeilad 'newydd'. Un atyniasd arall wrth gwrs yw, fel amgueddfeydd eraill mae'r pris mynediad yn rhad ac am ddim. Cyfeiriodd Shirley at y gwahanol arddanghosfeydd sydd eisioes wedi eu cynnal. Un o'r rhai mwyaf poblogaidd oedd arddanghosfa o hanes clwb pel-droed Bangor. Roedd hon wedi denu cryn ddiddordeb yn enwedig o gofio symudiad y clwb o'u cartrefysbrydol ar Ffordd Farrar i Nantporth.

Mae Storiol yn manteisio hefyd ar barodrydd trigolion lleol i 'fenthgy' sawl teclyn neu greiriau .

I ddiweddu'r noson cafwyd cwis wahanol iawn. Dangoswyd i ni ddarluniau o wahanol bethau sydd i'w gweld ar silffoedd Storiol. Teclynau, darn o beipen haearn bwrw, , par o fennyg, potyn yn llawn o binau, caets fechan o weiren tebyg i declyn ffrio sglodion a llwy bren gyda'I choes yn troi yn ogamog i un ochor. Cafwyd

sawl awgryn gan yr aelodau ond rhyfeddod oedd darganfod y gwir am y teclynau.

Trodd y beipen yn rhan o'r Bont Britannia gwreiddiol a losgwyd ddechrau'r 70a'u. Eiddo Bardd yr Haf, R. Williams Parry oedd y mennyg. Y potyn – ddaeth o Sir Fon- oedd y potyn ble cedwid y pinau a ddefnyddiwyd i osod melltith ar unigolyn. Yn y caets fechan rhoddwyd darnau bechan o sebon sbar, ac yna pan oedd y caets yn llawn o ddarnau yna eu gwasgu'n dynn i greu blocyn newydd o sebon. Y rhyfeddaf oedd y lwy bren. Defnyddiwyd y teclyn yma i orfodi person a oedd yn law chwith naturiol i ddefnyddio ei law dde.

Yr oedd un darlun arbennig, achos nad oedd gan Storiol unrhyw syniad beth oedd ei bwrpas. Awgrymodd rhai mai abacus i gofnodi llechi ydoedd, eraill mai ffordd o gadw'r sgor mewn gem crib.

Ar gais Shirley, rydym wedi cynnwys llun o'r teclyn yn y rhifyn hwn (gweler colofn 'Chwilota'), gan obeithio y gall unrhyw un ddatrys ei bwrpas.

Hwn oedd cyfarfod olaf yn y Caban am eleni. I ddiweddu'r tymor bydd yr aelodau yn cyfarfod yn y Winllan yn Nyffryn Nantlle ar gyfer Swper Pen Tymor. Bu'n dymor lwyddianus iawn eleni gydag amrywiaeth o siaradwyr gwadd. Cofiwch fod cyfle i unrhyw un ymuno a'r clwb cinio fydd yn ail gychwyn ar y nos Wener gyntaf ym mis Medi. Dewch draw.

Ysgol Gwaun Gynfi



Eisteddfod yr Urdd

Llongyfarchiadau mawr i Elin Dafydd ar gael 1af yn yr Unawd Corn a'r Unawd lleisiol.

Gwaith Celf a Chreffft yr Urdd Llongyfarchiadau mawr i'r holl blant fu'n cystadlu gyda gwaith celf. Dyma'r canlyniadau ar ôl yr Eisteddfod Sir.

Alys Davies-Williams 1af - Creu artefact unigol (Bl 3 a 4)

Gwion Davies 3ydd - Creu artefact unigol (Bl 3 a 4)

Gwenno Parry 3ydd - Creu artefact unigol (Bl 5 a 6)

Pob lwc i Elin ac Alys yn y Genedlaethol.

Croesawu cyn ddisgyblion yn ôl i'r ysgol

Cafodd yr ysgol gyfan fwynhau gwranddo ar y ddau gyn ddisgybl Emyr Gibson a Trystan Ellis Morris yn sgwrsio am eu hanes

yn yr ysgol a sut ddaeth eu breuddwydion yn wir. Y brif neges a rannwyd gyda'r plant oedd 'gweithiwch yn galed ac fe wnewch chi lwyddo.'

Diolch yn fawr iawn i'r ddau am eu hamser.

Dathlu Wythnos Gymraeg

Daeth yr awdur Llyr Tutus i siarad gyda Bl 6 ar sut i greu stori. Roedd y plant wedi mwynhau y sesiwn yn fawr iawn.

Gweithdy gan Tudur Phillips ac Anni Llyn.

Y Cyfnod Sylfaen yn mwynhau gwranddo ar stori gan Betsan Prysur.

Band Deiniolen

Prynhawn hwyliog iawn yng nghwmni Mr Meirion Jones a Mr Dafydd Evans yn sgwrsio am hanes diddorol y Band. Roedd y plant wedi gwirioni ar

yr hanes a chafodd bawb gyfle i chwythu'r corn anferthol.

Hoffwn ddiolch yn fawr iawn i chi am eich amser gan obeithio y dewch yn ôl yn fuan eto i sgwrsio.

Ysgrifennu chwedl gyda Bethan Gwanas

Roedd 4 disgybl lwcus wedi cael y fraint o weithio gyda Bethan Gwanas i greu chwedl ym Mhlas Tan y Bwlch yn ddiweddar.

Cynllun STEM

Cafodd plant Bl 6 gyfle i gymryd rhan mewn arbrawf gwyddoniaeth STEM ac, yn ogystal, dangoswyd cip o'r gweithdy ar raglen Heno yn ddiweddar.

Pêl-rwyd

Llongyfarchiadau mawr i dim pêl-rwyd yr ysgol a fu'n cystadlu yn ddiweddar yng

ngyhystadleuaeth yn y Ganolfan Brailsford. Roeddynt wedi mwynhau cymryd rhan gan chwarae gemau agos iawn. Da iawn chi!

Gala nofio

Canlyniadau da iawn yn y Gala Nofio. Llongyfarchiadau a da iawn i bawb a gymerodd rhan.

Pêl-droed

Cafodd tîm pêl-droed yr ysgol gymryd rhan mewn cystadleuaeth hefyd ar gae 3G ym Mangor. Wedi ennill tair gêm ac un yn gyfartal - agos iawn i'r brig! Da iawn.

Cyngor Ysgol

Yn dilyn sawl gweithgaredd o godi arian, daeth eu breuddwyd yn wir!

Gôl i'r buarth!!

Gobeithio y byddwn yn gallu cael mwy o adnoddau newydd i'r dyfodol



Parhad DEINIOLEN



Diolch Dymuna'r Cylch Meithrin ddiolch o galon i deulu'r ddiweddar Mrs Olive Jones, 1 Hafod Oleu, am y rhodd garedig o £250 er cof amdani. Roedd Mrs Jones bob amser yn ffrind i'r plant ac wrth ei bodd yn edrych arnynt yn chwarae allan ar y buarth. Cofion atoch fel teulu yn eich profedigaeth, ac unwaith eto diolch yn fawr iawn.

Diolch Dymuna teulu y ddiweddar Mrs. Olive Jones, 1 Hafod Oleu, Deiniolen, a fu farw ar Ebrill 10fed 2017 ddiolch o galon i bawb am eu cefnogaeth a'u caredigrwydd yn ystod ei gwaeledd. Bydd y rhoddion hael a gasglwyd yn mynd tuag at ysbyty Eryri i ddiolch am eu gofal ohoni ac hefyd i Ysgol Feithrin Deiniolen gan ei bod mor hoff o blant ac yn byw drws nesaf, wrth gwrs. Diolch yn fawr i bawb.

Diolch Dymuna'r Cynghorydd Elfed Williams ddiolch am y gefnogaeth y mae wedi ei dderbyn dros y 5 mlynedd olaf. Mae wedi bod yn anrhydedd cynrychioli'r pentref a'r ardal ar Gyngor Gwynedd yn ystod y cyfnod yma. Mae'n edrych ymlaen i weithio mor galed ag erioed dros ward Deiniolen am y 5 mlynedd nesaf.

Llongyfarchiadau Roeddyd yn hynod falch o weld fod Emma Chappell, Tai Caradog, wedi cael ei henwebu fel Dysgwyr y Flwyddyn gan yr Eisteddfod Genedlaethol eleni. Mae 3 arall yn y gystadleuaeth ond rydym i gyd yn gobeithio fod Emma yn llwyddo. Ers iddi ddod i fyw i'r pentref mae hi wedi gwneud ymdrech fawr i ddyysgu'r iaith gan fagu'r plant, Deion a Guto, ar aelwyd gwbl Gymraeg gyda'i phartner, Arwel. Mae'r ymdrech mae wedi ei wneud i ddyysgu'r

iaith i'w chanmol yn fawr ac rydym oll yn dymuno yn dda iddi, gan obeithio y bydd yn llwyddiannus yn Ynys Môn yn ystod yr haf.



Llun Elin Dafydd

Llongyfarchiadau i ti Elin Dafydd ar dy lwyddiant yn Eisteddfod Y Ffor. 1af ar yr Unawd Corna 3ydd ar yr Unawd Canu. Llongyfarchiadau hefyd ar dy lwyddiant yn Eisteddfod Groeslon yn Mis Ebrill gan gael 1af ar Unawd Corn, 2il ar Unawd Canu a 3ydd ar Unawd Alaw Werin. Prowd iawn ohonat i.

Diolch i Sian Gibson a Gavin Saynor am ei hyfforddi

Mynwent Eglwys Crist Llandinorwig Eleni eto mae Mr Berwyn Jones wedi ail ddechrau torri gwair y fynwent, ac mae'n gwneud dipyn o wahaniaeth i'r amgylchedd. A fuasai y rhai sydd yn rhoddi blodau ar feddi anwyliaid mor garedig â rhoi'r hen flodau yn y bin brown. Mae problem gyda baw cwn wrth fynedfa'r fynwent ac yn y fynwent ei hun. Sylwch ar yr hysbyseb ar fynedfa'r fynwent, os gwelwch yn dda peidiwch gadael eich cwn faeddu yn y fan gysegredig yma.

Mae llawer o drigolion y pentref yn holi ble mae hysbysfwrdd yr eglwys wedi diflannu? Hyd y gwyddys mae yn y rheithordy yn Llanberis ers misoedd!

Diolch i chwi garedigion y fynwent am eich haelioni y flwyddyn yma eto, cafwyd rhoddion gan:

Mrs M.C. Jones, Tan y Caerau: £10

Mrs Dilys Williams, 7 Llys y Gwynt, Penisarwaen: £20

Mr a Mrs Roland Pleming, Llanrug: £25

Mrs Helen Morris, 8 Min Menai, Bangor: £30

Mr a Mrs Alun Wyn Evans, 32 Stryd Newydd: £10

Gethin a Bethan, Llys, Brynrefail: £50

Dr William Munroe, 8 Llys y Gwynt, Penisarwaen: £5

Miss H. Evans Munroe, Llanrug: £5

Di enw: £10

Di enw: £10

Bydd Mr Brian Price, 14 Hafod Olau, neu Mrs Gwen Griffith, Fron, yn falch o dderbyn eich rhodd neu unrhyw aelod o'r Eglwys, er mwyn cario'r gwaith ymlaen.

Gwyl Deiniolen a'r cylch 2017

Amserlen Wythnos Yr Wyl

Dydd Sadwrn - Mehefin 10 CYSTADLEUAETH 5 BOB OCHR ar Cae Bwthyn. Dechrau am 11:00 y.b. Oedolion: £2 Newydd Eleni Pêl Droed Cerdded i rai Dros 40

Nos Sul - Mehefin 11 Cyngerdd Coroni yng Nghwmni disgyblion Ysgol Gwaun Gynfi yn Eglwys Llandinorwig am 7:00 y.h. Eich cyfle cyntaf i weld Y Frenhines a'i Llys. Tocyn Oedolyn - £3;

Tocyn Plentyn - £1. Tocynnau ar gael wrth y drws yn unig.

CWIS Yn Y Wellington, Deiniolen am 9.00 y.h.

Nos Lun - Mehefin 12 Disgo - Ysgol Feithrin (Ty Elidir os yn glawio) Bwyd a Diod ar gael i'w brynu. £1 i bob plentyn 6:00 y.h / 6:00

DARTIAU i'r Oedolion 9:00 y.h Wellington, Deiniolen. Cofrestru: £3

Nos Fawrth - Mehefin 13 Helfa Drysor a BBQ Cychwyn o Ty Elidir am 6:00 y.h. £1 Y pen (AM DDIM i blant dan 4) Dim mwy na 5 mewn tîm

Dydd Mercher - Mehefin 14 Te bach a sgwrs yng nghwmni Matt Guy (Oedolion yn unig) 1:00 y.p, 3:00 y.p. £3 Y pen

Nos Fercher - Mehefin 14 RAS 10k. i gofrestru - deiniolen10k@btinternet.com i gychwyn 7:00 y.h o Rhydfadog a diweddu yn yr ysgol.

Nos Iau - Mehefin 15 Mabolgampau - Cae Bwthyn. Dechrau am 6.00 y.h Amryw o Fabolgampau i Blant ac Oedolion. Bwyd a diod ar gael i'w brynu.

Nos Wener - Mehefin 16 SNWCER Cystadleuaeth Plant ac Oedolion. Dechrau am 6.00 y.h. Cysylltwch efo Elfed i gofrestru - 07729 394 230

Cystadleuaeth Pwl yn y Wellington, Deiniolen am 7:00. Cofrestru: £3

Trefn Diwrnod yr Wyl 17 Mehefin 2017 Yr orymdaith i gychwyn o Rhydfadog am 1:00 y.p. CROESO GAN SEINDORF ARIAN DEINIOLEN Beirniaid Yn Cyflwyno Cystadlaethau amrywiol. Nifer fawr o weithgareddau, stondinau, bwyd a diod i gyd ar Cae'r Bwthyn.

Ffenestri CADNANT Windows
 iorwerthwilliams@fsmail.net
DRYSAU □ FFENESTRI
A CONSERFATORIS UPVC
AMCANBRIS AMDDIM
 13 Eryri, Bethel, Caernarfon, LL55 1BX 01248670833 • 07801346652

Gwasanaeth Gwres a Plymio
 Ar Gyfer Eich Holl Anghenion Gwres A Plymio
 Gwaith proffesiynol o'r safon orau pob amser
Arwel Jones - 1 Cefn Cynrig • Bethel • LL55 1UW
Tel. (01248) 674927 Mobile- 07798 746718



Parhad DEINIOLEN

Merched y Wawr Mae'r tymor yn tynnu tua'i derfyn yng nghanen Merched y Wawr Deiniolen ar ôl blwyddyn ddathlu'r 50 i'w chofio. Yn y cyfarfod diwethaf, nos Lun y 15fed o Fai, cafwyd sgwrs hynod o ddiddorol gan Naomi Jones, Swyddog Addysg gyda Pharc Cenedlaethol Eryri ym Mhenrhyndeudraeth, a fu'n adrodd hanes Hedd Wyn a'r datblygiadau gofalus sydd wedi digwydd i adnewyddu fferm Yr Ysgwrn ar gyfer agoriad y safle o'r newydd ar y 9fed o Fehefin eleni. Er ein bod wedi ymweld â'r Ysgwrn fel cangen ddwy flynedd yn ôl, cymaint oedd gwybodaeth, manylder a sensitifrwydd y sgwrs gan Naomi am gyfnod y Rhyfel Byd Cyntaf, am y teulu cyfan, ac am brofiadau cynifer â 40,000 o deuluoedd yng Nghymru yn y cyfnod hwn mewn hanes nes ei bod wedi ennyn diddordeb ynom i ymweld â'r fferm ger Trawsfynydd unwaith eto.

Edrychwn ymlaen rwan at ein cyfarfod olaf cyn y gwyliau dros yr haf, sef pan drefnir taith o gwmpas safle Halen Môn ym Mrynsiencyn nos Wener, y 9fed o Fehefin. Bydd pawb yn siwr o gael 'blas' ar y swper fydd wedi'i drefnu ar ein cyfer yng Ngwesty Fictoria, Porthaethwy, ar y ffordd adref, a dylai'r aelodau sydd am ddod roi gwybod i Jackie, Beran, cyn gynted â phosibl a rhoi blaendal i Margaret, os gwelwch yn dda.

Diolch Dymuna Mrs Jennie Williams, 1 Rhydfadog, ddiolch yn ddiffuant i'w phlant a'i theulu, hefyd ei ffrindiau a'i chymdogion, am eu cefnogaeth tra bu yn yr ysbyty ac wedyn ar ôl dod adref.

Diolch yn fawr i Ward Conwy, Ysbyty Gwynedd ac yna Ward Padarn, Ysbyty Eryri am eu caredigrwydd a'u gofal. Diolch i'r gofalmwyr cartref a gafodd ar ôl dod adref a oedd yn galw bob dydd. Diolch o galon i chwi oll.

Seindorf Arian Deiniolen Dymuna Pwyllgor y Band ddiolch yn fawr iawn i bawb a fu yn cefnogi y Clwb eleni. Dyma enwau yr enillwyr:

£30: Malan Hughes, Caethro; Grisial Morus, Pontllyfni; Gareth Roberts, Bangor; Alwyn Williams, Deiniolen; Alison Jones, Clwt-y-bont; Meirion Jones, Tai Caradog, Deiniolen; Mrs Pat Smyth, Deiniolen; Mrs Nellie Parry, Deiniolen; Margaret Williams, Rhiwen, Deiniolen; Betty Roberts, Deiniolen.

£20: Carwyn Thomas, Deiniolen; Gareth Roberts, Bangor; Meinir Evans, Rhostryfan; Alison Jones, Clwt-y-bont; Catrin M. Jones, Rhos Isaf; Kevin Wyn Jones, Express Motors; Glenda Jones, Clwt-y-bont; Brenda Williams, Deiniolen; Len Parry, Deiniolen; Alun Lewis, Deiniolen.

£10: Alison Jones, Clwt-y-bont; Maud Williams, Bethel; Bryn Jones, Penisarwaun; Sion Wyn Hughes, Deiniolen; Catherine Foulkes, Cwm y glo; Eirian Roberts, Llanrug; Nia Williams, Clwt-y-bont; Huw Owen, Bethel; Margaret Williams, Deiniolen; Caryl Owen, Bethesda Bach.

Arian ar Weiren Wib



Dymuna staff a phwyllgor y Cylch Meithrin ddiolch o galon i Mrs Carys Thomas am fod mor ddedwra a mentro ar Weiren Wib Chwarel y Penrhyn, Bethesda yn ddiweddar. Casglodd dros £1500 gyda'r ymdrech, ac y mae mwy o arian wedi ei addo hefyd. Bydd yr arian yn cael ei ddefnyddio i brynu offer chwarae i blant y Cylch. Dymuna Mrs Carys Thomas ddiolch i bawb a gyfrannodd tuag at yr ymdrech.

FFAIR HAF
Ysgol Gynradd Llanrug
Mehefin 10, 1 o'r gloch 2017 June 10th, 1 o'clock

North Wales SIGNS
 Gogledd Cymru

Gwasanaethau y Capel

Mehefin 2il am 2.00 y prynhawn: Y Parch Marcus Robinson fydd yn gwasanaethu ac yn gweinyddu y cymun.

Mehefin 11eg am 2.00 y prynhawn: Gwasanaethir gan Karen Owen, Penygroes.

Tynfa Caethro Enillwyr mis Mai. 1Af (95) £40: Efina Hughes, 7 Erw Wen; 2il (102): Llio Jones, Glanrafon; 3ydd (58): Sandra Roberts, 5 Bryn Gof; 4ydd (38): J. ac A. Pritchard, Ty'n Gors. Diolch i bawb sy'n cefnogi gweithgareddau y Gymdeithas Cae Chwarae.

Clwb Merched Cafwyd noson ddifyr ar Ebrill 27ain, yn ôl yn y Ganolfan, yng nghwmni Debbie Jones o Gynllun Arferion Da y Ganolfan Hamdden yng Nghaernarfon. Pwnc y noson oedd sut i fod o gymorth i bobl sydd â demensia, sut i adnabod yr arwyddion a sut i fyw yn hapus o ddydd i ddydd gyda'r clefyd hwn, sydd yn cynyddu'n arw yn ein plith. Cawsom lawer o wybodaeth a llawer o hwyl gyda'r profion roedd Debbie wedi eu paratoi ar ein cyfer, e.e. Rhoddwyd ni mewn rhes, a chyfarwyddyd ar bapur o'r math o ddemensia oedd arnom (dychmygol!!) Wedyn roedd angen symud un cam ymlaen os gallem wneud yr hyn oedd Debbie yn ei ofyn i ni gyd, e.e. talu am bapur yn y siop leol. Wedi i ni ymateb i oddeutu 10 o gwestiynau roedd dipyn o ofod rhyngom, (a Bethan Iwan yn bositif ar y blaen!!). Sioc i ni i gyd oedd canfod fod bob papur run fath, yr un sefyllfa, ac ein bod wedi ymateb yn wahanol iawn yn ein dehongliad o'r hyn all claf o demensia ei wneud. Tanlinellwyd gan Debbie mor bwysig yw cael diagnosis cywir, a hynny yn gynnar, gan fod cymaint o wahanol fathau o ddemensia yn bodoli.

Byddwn yn diweddu y tymor gyda ymweliad â Storiell, Bangor, a swper yn dilyn yn Seibiant ar nos Iau, Mai 25, yn brydlon am 6.30 (nid 7.00 fel sydd ar y cerdyn aelodaeth).

Genedigaeth Llongyfarchiadau i Dona a Siôn Griffiths ar enedigaeth merch fach, Luned Siôn, a wyres newydd i Alun a Vera Roberts, Caethro.

Llongyfarchiadau hefyd i Dafydd (Lodge) ar ddathlu ei benblwydd yn 80 oed yn ddiweddar.

Dathlu'r Aur. Merched y Wawr Braint i ni yng Nghaethro yw cydnabod cyfraniad sylweddol un o'n pentrefwyr fu'n allweddol wrth sefydlu y Mudiad yn ôl yn 1967. Dyma oedd breuddwyd Zonia Bowen, Cefn Coed, Caethro, yn y cyfnod cyffrous hwnnw pan ddaeth Geraint a Zonia Bowen i fyw i'r Parc, Bala, a chanfod bod Sefydliad y Merched bryd hynny yn gweithredu'n uniaith Saesneg. Aeth Zonia ati i logi Pabell y Cymdeithasau yn y Brifwyl a sefydlodd ganghennau ledled Cymru. Bu'n trefnu pwyllgorau cenedlaethol, yn golygu y cylchgrawn Y Wawr, ac yn annog y brwdfrydedd hwnnw sy'n parhau mor gryf. Bu'n llywydd anrhydeddus y Mudiad yn 1972 hyd 1975. Diolch i chi, Mrs Bowen, a phob dymuniad da wrth ddathlu'r Aur.

CWMY GLO

Cydymdeimlad Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf i Dylan Roberts, 22 Dôl Afon, yn ei brofedigaeth o golli ei fam yng Nghaernarfon, mam yng nghyfraith i Diane a nain annwyl a charedig i Ffion a Cheryl.

Adref o'r Ysbyty Croeso adref a dymunwn wellhad llwyr a buan i Seren, Bod Elan, ar ôl cyfnod yn Ysbyty Alder Hey, Lerpwl.

Undeb y Mamau Cafwyd gwahoddiad gan gangen gyda'r nos i ymuno â hwy yn Feed my Lambs brynhawn Llun, 24 Ebrill, i fwynhau Te Prynhawn. Croesawyd pawb i'r cyfarfod ac adroddwyd gweddi Undeb y Mamau. Cafwyd gweddi gan y Tad John a mwynhawyd te blasus iawn. Cyflwynwyd tystysgrif i Dilys Edwards am roi 50 mlynedd o wasanaeth i'r Mudiad. Terfynwyd gyda gweddi gan y Parchedig Jeffrey Hughes.

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 16 Mai lle bydd Bwrdd Gwerthu.

Sefydliad y Merched Yng nghyfarfod y Sefydliad ar Ebrill 20fed y siaradwyr gwadd oedd Gordon Parry (gynt o Lanberis) a Gill Parry yn arddangos gemwaith oedd yn defnyddio gwahanol decstiliau. Rhoddwyd cyfle i bawb gael troi ei law ar y grefft dan ofal Gill. Gweithgarwch oedd hwn i godi arian tuag at yr Elusen Neuroconsaneosis ac Epilepsi. Cafwyd adroddiad ganddynt o'r hanes trist yn eu bywydau o golli tri o'u plant i'r salwch a sut yr oeddynt yn dyfalbarhau i weithio'n gydwybodol i'r Elusen er codi ymwybyddiaeth o'r cyflwr.

Dydd Sadwrn, Ebrill 22ain oedd Diwrnod y Gwenyn a gynhaliwyd yng Nghraig y Don, Llandudno. Cafwyd diwrnod llwyddiannus dan nawdd y Ffederasiwn.

Roedd stondinau amrywiol o felysfwyd, crefftau a phlanhigion, a'r siaradwyr gwadd yn eu trafod mewn perthynas â'r gwenyn a'u mêl.

Roedd Ebrill 26ain yn ddydd Cynhadledd Sefydliad y Merched Cymru ar Faes Sioe Amaethyddol Sir Fôn a'r trefniadau yng ngofal Ffederasiwn Môn o Sefydliad y Merched. Thema y diwrnod oedd "Yn ôl i'n gwreiddiau". Bu'n Gynhadledd o drafod pynciau diddorol - "Teledu Cymraeg, beth yw'r dyfodol?" gan Huw Jones; 'Syr Kyffin Williams' gan Lona Mason; 'Lleisiau o lawr y ffatri' gan Catrin Stevens ac 'Ein rôl, sêr y ffilm' gan Huw Garmon.

Profedigaeth Gofidus oedd deall am ymadawiad Eirlys Williams, 4 Minffordd, ar Fai 11eg yn 86 mlwydd oed. Yn un â'i gwreiddiau yn y pentref, roedd bob amser ag atgofion pleruser i'w hadrodd am y blynyddoedd a fu. Roedd yn gymeriad hwyliog ac wedi bod yn ffyddlon i'r Eco fel dosbarthwr am nifer helaeth o flynyddoedd. Cydymdeimlwn yn ddwys â'r teulu oll yn eu profedigaeth.

Yr Eglwys Bresbyteraidd

Y Gymdeithas Mae'r aelodau eleni wedi penderfynu cyfarfod dros fisoedd yr hydref a'r gaeaf yn hytrach na'r gwanwyn a'r haf fel ag y bu'n arferiad am nifer helaeth o flynyddoedd, gan gloi y tymor â thaith i fan arbennig. Bydd y Gymdeithas felly eleni yn agor gyda thaith yn yr hydref. A hithau yn flwyddyn nodedig o ddathlu tri chan mlynedd geni y Pêr Ganiedydd, mae'r ysgrifennydd, Dafydd Ellis, yn trefnu diwrnod arbennig i ymweld â Phantycelyn ac ardal Llanymddyfri.

Oedfaon Mehefin

4 am 5: Parch Marcus Robinson (Gweinidog)

11 am 2: Parch Gerallt Lloyd Evans, Llangristiolus

18 am 5: Parch Huw Pritchard, Llangefni

25 am 2: Parch Ddr Dafydd Wyn Wiliam, Bodedern



TUDALEN YR

IFANC

Angharad Price: Teithio'r Byd

Rydw i wastad wedi bod eisiau mynd i deithio'r byd, er mwyn cael agoriad llygaid i wahanol ddiwylliannau, ac wrth gwrs yr antur! Daeth y freuddwyd yn fyw ar ôl dwy flynedd o gynllunio ym mis Tachwedd.

Daeth un o uchafbwyntiau fy nhaith ar bwynt uchaf Affrica, 5,895m uwchben y môr ar big Uhuru, Kilimanjaro. Wrth sefyll yno'n edrych dros y rhewlifau, collais fy ngwynt am y canfed tro'r dydd honno, ond y tro 'ma, nid oherwydd salwch uchder! Roedd y teimlad o falchder a rhyddhad teimlais yno yn atseinio ag ystyr Uhuru, sef rhyddid. Gwnaeth oerni'r copa fy atgoffa o'r tro cyntaf i mi ddod wyneb i wyneb â rhewlifau yng Ngwlad yr Iâ, wrth aros mewn cyffro am oriau man y bore i'r aurora borealis oleuo'r nos gyda'u dawns.

Gwlad yr Iâ oedd y gyrchfan gyntaf ar fy nhaith o amgylch y byd. Rydw i wedi cael sbectwm eang o brofiadau gwych ers hynny. Mae llawer o rheiny oherwydd y bobl rydw i wedi'u cyfarfod ar y ffordd. O dathlu diolchgarwch â theulu Americanaidd I wahoddiad i fwyta cyri sbeislyd oddi ar ddeilen hefo fy nwylo gyda phentref cyfan o bobl Sri Lancaidd mewn teml Hindwaidd fel rhan o seremoni, a dawnsio i fandiau Jazz yn strydoedd New Orleans. Byswn i wir heb lwyddo i gyrraedd i ben Kilimanjaro heb gefnogaeth yr arweinwyr amyneddgar! Cyfarfodais un o'r Masai Mara ar fws, lle rhannom jôc am ba mor wyn "like a VERY milky coffee" roedd fy nghroen ar y pryd. Dathlais gwyl Holi ym Mushkar yn India, a bod yn rhan o'r seremoni llosgi, yna partio a dawnsio yn y stryd gan dafllu paent amryliw a dianc oddi wrth falwnau dwr y plant.

Wrth gwrs buasai'r daith ddim hanner cystal heb yr holl drafeilwyr eraill rydw i wedi cyfarfod. Mae'r cysylltiadau rydych yn gwneud hefo ffrindiau wrth drafaelio yn para diwrnod, wythnos neu fis, ond mae bob un mor bwysig â'r un nesaf. Y gefnogaeth a'r cyfeillgarwch hanfodol hwnnw dros y misoedd diwethaf sydd wedi gwneud y daith mor arbennig i mi. Rydw i wir yn edrych ymlaen at y bennod nesaf!



Angharad Price o Fethel yng nghanol y llun yn nathliadau gwyl Holi.

Coginio yn sgil gwych:

Matt Guy



Daeth Matt Guy, yn wreiddiol o Ddeiniolen, i amlygrwydd fel cogydd dros Brydain wedi iddo ymddangos ar raglenni teledu MasterChef: The Professionals a Chefs on Trail. Wedi'r cyhoeddiad y byddai'n dychwelyd i weithio yn yr ardal fel 'Executive Chef' i'r fenter newydd 'Tŷ Castell' yng Nghaernarfon, aeth yr Eco i sgwrsio ag o yng Ngŵyl Fwyd Caernarfon fis Mai;

"Pan o'n i'n ddisgybl yn Ysgol Brynrefail wnaeth fy athrawes goginio, Rhian Elis Owen, ddarganfod fod gen i dalent ac awydd i goginio. Hi wnaeth fy annog i geisio am gwrs Modern Apprentice gyda Choleg Menai wedi ei leoli yn Seiont Manor. Nhw rhoddodd fy swydd gyntaf i mi, gan fy nghadw ymlaen ar ôl fy mhrentisiaeth ac yn fannu wnes i ddysgu a datblygu'n sgiliau. Wnes i weithio yno am 4 blynedd a hanner, gyda'r Daily Post yn cyhoeddi'n enw fel y 'next big thing' yn yr ardal."

Wedi gweithio mewn amryw fwytai yn Jersey, Caer, Ardal y Llynnoedd, Stratford Upon Avon, Llundain, Derby ac eraill, mae'n falch o allu bod yn rhan o fenter yn ei ardal enedigol;

"Mae safon y bwyd yn ein hardal ni'n ardderchog, gyda chymaint o deuluoedd yn cadw defaid a buchod i greu cigoedd o safon uchel. Ar ôl treulio 16 mlynedd i ffwrdd mae'n amser da i dychwelyd i ddangos be' dwi wedi ei ddysgu dros y blynyddoedd."

Mae Matt yn falch iawn o'r cyfleoedd gafodd yn lleol fel bachgen ifanc a chredai bod cael y cyfle i ddysgu mewn swydd yn bwysig iawn. Dywed;

"Mae 'na tua 20 o swyddi yn y maes coginio ar gael yn ardal Caernarfon yn unig ar y funud. Felly mae'n bwysig i bobl ifanc sylweddoli bod y gallu i goginio yn sgil defnyddiol, yn enwedig mewn ardal dwristiaidd. Ond mae angen hefyd i'r



bwytai gefnogi a rhoi cyfleodd i bobl ifanc fel ces i yn Seiont Manor."

Bydd y bwyty a gwesty newydd, Tŷ Castell yng Nghaernarfon, yn agor dros yr haf gyda Matt wrth y llyw yn y gegin.

"Wnaeth Tŷ Castell ddod ata i a gofyn a o'n i eisiau bod yn rhan o'r peth ac o'n i'n falch iawn o gael y cynnig. Dwi'n edrych ymlaen at weithio efo cynnyrch lleol gyda'r pwyslais ar brydau bach i rannu, gyda naws Gymreig i bopeth."

Edrychwn ymlaen at alw draw!

HYNAC ARALL Rhyfeddodau? Tybed wir i chi!

Yr Wyddfa. A ydyw'r mynydd dan sylw'n rhan annatod o'r rhyfeddodau a berthyn i chwi? Ai'r hyn a welsoch, sy'n mynnu parhau yn eich cof, tra ceir cryfder ynddo, hyd nes, yn dra mynych, y byddwch yn gweld y cyfan drachefn, a hynny drosodd a thro? Digwyddiad, lle man, a'r cyfan trwyddynt oll yn peri i chwi synnu a rhyfeddu atynt.

Dydi o mewn gwirionedd rhyw lawer o bwys gen i pa gar, hyd yn oed feic-modur ydoedd, fu'r cyntaf a'r olaf o ran hynny i esgyn yr Wyddfa. Does neb am sôn pa ferlen neu ddringwr ydoedd y rhai cyntaf i gyrraedd y copa! A chystal dweud fod ambell gamp ar adegau'n troi'n rhemp. Nid af ati i fanylu. Mi wyddoch am yr hyn sy gen i dan sylw, ond y mae o bwys gen i daro ar lanastr, ran tuniau a photeli gweigion, papurach a ballu, ynghyd â phlastigau, a adawyd gan bobol i bydru a llygru ar y llechweddau. Flynyddoedd yn ôl arferid cynnig pishyn tair ceiniog am ddychwelyd poteli gweigion Corona i siopau! Byddem fel plant am y gorau yn eu casglu nhw (y poteli gweigion sy mewn golwg!). A dweud y gwir mi fyddem o hel poteli yn twtio sawl man.

Oes! Mae na beryglon yn llechu ymhob potel wrthodedig faluriedig, a thuniau rhydedig, oherwydd gyda threigl amser dônt yn rhannau llygredig o'r priddellau.

Difwyno'r Fam Ddaear! Pwy ond dyn? Petai pawb yn mynd â'i hen sbwriel adra efo fo ynte, ond dyna fo dyn ydi dyn, ac mae'n well ganddo ymhob oes greu problemau i fodau dynol eraill na mynd ati i'w datrys. Ie! Rhywbeth anferthol o drist onide?

Ebe'r diweddar Brifardd a Chyn-Archdderwydd Eisteddfod Genedlaethol Cymru, sef Selwyn Iolen, Bethel a Phenisarwaun, am yr Wyddfa:

Cawr

Yn golchi bawd ei droed

Yn nyfroedd Padarn...

Cawr-mynydd wir i chi sy'n haeddu parch a gofal. Ebe'r bardd yn ei ddull sionc unigryw:

Trên

Yn smocio'i ffordd

I fyny ei ysgwydd...

Daw hyn i gof ysgrif llawn bywiogrwydd o eiddo Idris (Tomos), Deiniolen, sydd ar gael yn Y Llan, newyddiadur yr Eglwys yng Nghymru, 20fed Medi 1996. Dydw i ers talm o amser heb weld Idris (tipyn mwy gwahanol efo gweld Glyn, ei frawd, wedyn – yn nhre'r caneris!) ond bob tro y gwnaf daro ar Idris, o gynhebrwng i giaffi glan y môr gwn fy mod yng nghwmni un nas anghofiodd ei wreiddiau nac ychwaith mo'i filltir sgwâr. Mynd i ben yr Wyddfa fawr ar y trên dri o'r gloch a wnaeth Idris, a'i ddiweddar fam yn gwmni iddo. Cael lle i ista, welwch chi, yng nherbyd y giard a chwmi Mr Cledwyn Jones. Wedi cyrraedd gorsaf Y Clogwyn, dyma'r trên yn aros yn stond.

'Mae Wendy wedi cyrraedd,' meddai Mr Jones, a phwy oedd Wendy ond dafad, a dyma hi at Mr Jones ac yntau yn rhoi polo mint iddi i'w gnoi. 'Dos ar hyd y trên,' meddai'r giard wrthi, 'I weld be gei di gan y teithwyr,' ac yn wir dyna a wnaeth Wendy gydag ambell i frechdan yn dod i'w chyfeiriad. 'Yn ôl â chdi rwan, i bori ar yr hen fynydd ma,' meddai'r giard a gwelsom Wendy yn mynd, meddai Idris, a hynny'n 'hamddenol braf i bori unwaith eto ar y llethrau.

Ie! dringwch yr Wyddfa ond da chwi edmygwch hi, meddyliwch yn dda ohoni, a gofalwch tra'n ymadael, gludo ymaith efo chi bob sothach o sbwriel, nid ei daflu a'i adael yno dan draed, i anharddu'r cribau a'r llechweddau.

Dafydd Gruffudd Ifan

Sbwriel yn yr Allt Ddu



Sut mae datrys y problem?

- Gwagio'r bin yn amlach
- Gosod dau fin yno
- Peidio rhoi bin yno o gwbl er mwyn annog pawb i fynd a'u sbwriel oddi yno

Atebion ar gerdyn post i Gyngor Gwynedd os gwelwch yn dda.

Agoriad Swyddogol Ynni Padarn Peris

Ar ddydd Sadwrn, 24ain o Fehefin am 11.00 y bore bydd agoriad swyddogol Ynni Padarn Peris yn cael ei gynnal ger Hostel Ieuentid Llwyn Celyn yn Llanberis. Yr Aelod Cynulliad, Sian Gwenllian fydd yn gyfrifol am yr agoriad, a cheir sgysiau gan eraill sydd wedi bod yn rhan o'r fenter.

Mae croeso cynnes i unrhyw un ddod draw i gael golwg ar y peirianwaith o fewn y sied gynhyrchu neu i gael eu tywys i fyny'r afon Goch at y gronfa.

Os bydd y tywydd yn anffafriol, cynhelir y seremoni oddi fewn i'r Hostel Ieuentid.

Age Cymru Gwynedd a Môn

A ydych angen cefnogaeth a chyngor â'ch arian, biliau, gwariant/incwm, sgiliau T.G., gan gynnwys budd daliadau? Os ydych dros 50 ac angen cymorth ag unrhyw un o'r materion yma, mae cefnogaeth ar gael. Byddwn yn cynnal sesiynau Cyllid Iach yn Hafan Elan, Llanrug rhwng 12.45 yp – 1.45 yp ar 22.08.17 & 21.11.17.

Mae croeso i chi alw i mewn am unrhyw gyngor neu wybodaeth. Os hoffech sgwrs anffurfiol o flaenllaw, cysylltwch â Bethan ar 01286 677 711 neu 07342 171 392.



Adeiladu Pont Penllyn

Delio â thor-cyfraith oedd prif gyfrifoldebau llysoedd y Chwarter Sesiwn, ond yr oedd iddynt hefyd bwerau i ddelio affyrdd a phontydd. Oherwydd hynny, mae llawer o gofnodion yn ymwneud ag adeiladu ac atgyweirio pontydd wedi eu cadw. Mae hynny'n arbennig o wir yn achos yr hen Sir Gaernarfon, a chofnodion y Chwarter Sesiwn wedi eu cadw'n ddiogel yn yr Archifdy yng Nghaernarfon. Ceir cyfeiriadau at nifer o bontydd yn ein hardal, ond does dim son am adeiladu y bont enwocaf un, sef Pont Penllyn!

Credir mai yn 1826 yr adeiladwyd y bont. Mae Griffith Ellis, un o stiwardiaid cynnar Chwarel Dinorwig yn awgrymu'r dyddiad hwn yn ei 'Gof-lyfr'. Mae'r flwyddyn hefyd wedi ei cherfio ar garreg ar y bont ei hun, ond fod hwnnw'n brysur ddiiflannu. Edrychwch amdani wrth ochr y llechfaen sy'n dangos mai cysylltu plwyfi Llanddeiniolen a Llanrug a wna'r bont – er fod hynny yn anghywir ers ad-drefnu ffiniau'r cynghorau cymuned: plwyfi Llanddeiniolen a Llanberis sy'n cael eu cysylltu bellach!

Ond ar wahan i'r cyfeiriad yng nghof-lyfr Griffith Ellis a'r dyddiad sy'n prysur ddiiflannu ar y bont ei hun, doeddwn i ddim yn ymwybodol o unrhyw ddogfen oedd yn cyfeirio at adeiladu'r bont. Felly rwy'n ddiolchgar i Iwan Roberts, Llanrug am fy nghyfeirio at gasgliad Stad Glynllifon. Ac ymysg y miloedd dogfennau yn y casgliad hwnnw gellir dilyn a dyfalu'n bur gywir y rhesymau dros adeiladu'r bont.

Stad Glynllifon oedd perchennog y tir o gyffiniau Cwm y Glo hyd at ffin plwyf Llanberis ar afon y Glyn, gan gynnwys fferm Glynrhonwy. Eiddo'r stad hefyd oedd holl dir fferm y Fach Wen ym mhlwyf Llanddeiniolen, ond prynwyd y tir hwn gan Stad y Faenol er mwyn adeiladu eu rheilffordd ar hyd glannau Llyn Padarn. Ond nid yn Chwarel Dinorwig yn unig yr oedd cloddio am lechi yn y dyddiau cynnar, ond ar dir fferm Glynrhonwy hefyd. Yn wahanol i Ddinorwig, mân chwareli a ddatblygwyd yng Nglynrhonwy. Yng nghasgliad Glynllifon mae adroddiadau mor gynnar a 1804 am y chwareli bychan hyn: Glan y Llyn, Gloddfa Ganol a Twll y Chwil – i gyd ar dir John Thomas, tenant Glynrhonwy. Yn y flwyddyn honno hefyd mae disgrifiad o lwyth o lechi ar lan y llyn yn disgwyl am gael eu cario oddi yno ar gychod. Roedd Llyn Padarn bryd hynny yn ymestyn at waelod Gallt y Glyn ac at fynedfa y maes carafanau presennol – ac yr oedd Ynys Wen yn ynys!

Gwyddom hefyd fod cychod yn cario llechi allan o Chwarel Dinorwig (cyn adeiladu'r dramffordd drwy Glwt y Bont ac ymlaen am Nant y Garth), a'r cyfan yn cyrraedd porthladd Cwm y Glo ar lannau Llyn Bogelyn. Mae'n amlwg felly nad oedd pont ym Mhenllyn yn y cyfnod hwn gan na allai cychod llechi dramwyo oddi tani yn ddiogel. Mae peintiad olew gan yr arlunydd J. Warwick Smith yn dangos yr olygfa – ac nid oes pont ym Mhenllyn. Dyddiad y darlun yw 18...

Adeiladwyd y ffordd haearn/tramffordd o Chwarel Dinorwig i Glwt y Bont ac ymlaen tua 1824. Ond doedd Stad Glynllifon ddim am gollu ar y cyfle i weithredu yn yr un modd. Yn yr un flwyddyn ceir nifer o gyfeiriadau mewn gwahanol ddogfennau at adeiladu ffordd haearn.



Y dyddiad pwysig yn yr hanes hwn yw'r 15fed o Ebrill 1823 pan ddaeth aer Glynllifon – Thomas John Wynne – i oed, ac etifeddu'r Stad. Dyma ddechrau cyfnod newydd yn hanes Stad Glynllifon. Mewn llythyr yng nghasgliad Glynllifon ym mis Tachwedd 1824 ceir cyfeiriad at “a proposed road and railway from Glynrhonwy.... and the railway down to Caernarfon quay.” Does wybod pa lwybr y bwriedid y “railway” hon ar gyfer cario llechi o chwareli Glynrhonwy i Gei Caernarfon.

Mewn llythyr arall ym mis Tachwedd 1824 ceir cyfeiriad at “the proposed bridge at Penllyn.” Yn y llythyr hwn hefyd mae dau amcangyfrif ariannol: £250 am adeiladu pont, a £750 am adeiladu ffordd o Glynrhonwy i lawr at y bont. Rhaid cofio mai'r unig ddull o gyrraedd y mân chwareli yng Nglynrhonwy bryd hynny oedd ar gychod neu ar hyd y “narrow, dangerous zig-zag”, sef ffordd y Clegir!


Mae'n ymddangos fod y gwaith o adeiladu Pont Penllyn wedi cychwyn yn ystod 1825, ond o bosibl fod rhai trafferthion. Mae cyfeiriad ar gael ar ddechrau Awst yn holi “if there is any doubt concerning the new bridge at Llanberis Lake.” Os oedd unrhyw amheuaeth, daw'r ateb o fewn llai na phytrefnos: “The Llanberis Pool bridge is of sufficient dimensions to take the water. The meadows are often flooded anyway. The shallow part of the river could be lowered, and they have it in their power to do so.” Y “they” yn y cyswllt hwn mae'n siwr oedd y llafurwyr a'r seiri meini oedd wrthi'n adeiladu. Nid oes gwybodaeth ar gael i wybod a fu'n rhaid gostwng gwely'r afon yng ngheg y llyn. Daw'r cyfeiriad olaf ganol mis Chwefror 1826: “The masons have finished the bridge.”

A dyna brawf pendant fod Griffith Ellis a'r dyddiad ar y bont yn gywir. Fe'i hadeiladwyd yn ystod 1825 a'i chwblhau erbyn mis Chwefror 1826.

Ond beth ddaeth o gynlluniau Glynllifon i adeiladu rheilffordd? Dim, mae'n ymddangos, oherwydd rhoddwyd y pwyslais ar wella ffyrdd. Yn 1823 talodd yr Arglwydd Newborough £100 i blwyf Llanrug i wella'r ffordd o Gaernarfon i gyfeiriad y “vale of Llanberis”. Dyma'r cam cyntaf yn y gwaith o adeiladu ffordd newydd i ddisodli ffordd y Clegir. Flwyddyn yn ddiweddarach, sef 1824, roedd bwriad ganddynt, nid yn unig i adeiladu ffordd newydd o chwareli Glynrhonwy i Benllyn, ond hefyd i adeiladu ffordd newydd o'r Fach Wen i Benllyn. Roedd y bont a adeiladwyd yn cysylltu eu tiroedd ar y ddwy ochr i Llyn Padarn. Erbyn 1828 roedd y ffordd o Gwm y Glo i Benllyn ac ymlaen i Glynrhonwy wedi ei chwblhau “and will be open to the public” ym mis Medi yn ol adroddiad yn y North Wales Chronicle.

O fewn ychydig flynyddoedd byddai newidiadau eraill. Mae'n amlwg fod trafodaethau wedi bod rhwng Glynllifon a'r Faenol ynglŷn â thir Fach Wen, ac fel rhagarweiniad i'r pryniant gwnaethpwyd cytundeb yn 1838 rhwng yr Arglwydd Newborough a Thomas Assheton Smith, “that T.A.Smith shall maintain and repair Penllyn Bridge, which was built across the River Rhyddallt at the end of Llanberis lake by Thomas John... and that no tolls shall be charged on the said bridge.” Ddwy flynedd yn ddiweddarach cwblhawyd y pryniant am £13,500.

Mae'n debyg mai ar sefydlu'r cynghorau sirol yn 1888 y trosglwyddwyd y gofal am Bont Penllyn oddi ar Stad y Faenol.





Crair Ddifyr Storiell

Mae amryw o greiriau diddorol iawn i'w gweld yn Storiell, Bangor. Dyma un nad oes gan neb – hyd yn hyn – unrhyw eglurhad ar ei phwrpas. Fel y gwelwch o'r llun, rhesi o rifau sy'n gorchuddio'r wyneb. Beth oedd eu harwyddocad?

Ble mae Adwy Lwyd?

Mae hen gorlan ddefaid ar ochr uchaf y giat uchaf ar lwybr Maesgwm. Yno roeddwn i'n stiwardio yn ystod Ras Moel Eilio y mis diwethaf, a chefais gwmi Gari Davies o Lanberis. Tybiai mai'r 'adwy lwyd' oedd yr enw ar y safle. Welais i erioed gyfeiriad at y fath le yn ysgrifenedig, a dyma'r tro cyntaf i mi glywed am yr adwy lwyd hefyd. Felly, dyma ofyn a all unrhyw un gadarnhau fod gwybodaeth leol Gari yn gywir – a does gen i ddim lle i'w amau!

Côr Ysgol Brynrefail.

Mae ymateb i'r llun o Ysgol Brynrefail yn dal i ddod! Daeth y canlynol gan Annette Bryn Parri:

“Dwi yn cofio yr achlysur yn iawn fel ddoe. Roeddwn yn cyfeilio yr offeren yn G gan Schubert. Dyma y tro cyntaf i mi gyfeilio gwaith clasurol go iawn a sylweddolais mai cyfeilydd clasurol roeddwn isho bod. Roedd pedwar o unawdwy'r yn canu hefo ni sef y diweddar Evan Bryn Roberts Tenor (fy nhad annwyl, y



diweddar Edwin Evans (bariton), y diweddar Brian Rowlands (bas) ag Elen Ellis (soprano). Tydwi ddim yn cofio yn union pa flwyddyn, ond oddeutu 1976 neu 1977.

Michael Williams o Ddeiniolen sydd ar y pen rhes ol ochr dde, sydd yn llawfeddyg yn York rwan. Nid Elaine Brailsford ond Dilys o Gwm y Glo sydd yn y rhes ganol. Ia y fi, Annette, sydd ar y pen ochor chwith.”

Os oes gennych unrhyw ymholiad am agweddau o hanes lleol bro'r "Eco", neu unrhyw hanesyn diddorol am unrhyw gyfnod yn hanes y fro, yna cysylltwch a Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon. LL55 4BA (Ffon: 01286 673515)

e-bost: dafydd.wthomas@btinternet.com neu ar safle chwilota.wordpress.com

DINORWIG

Marian Jones.
Ffôn: (01286) 870291

Damwain Ar ôl i'r Ganolfan gael ei gwneud yn dy bwyta fe fu imi ddweud yr adeg hynny y byddai damwain oherwydd yr holl gerbydau bach a mawr sydd yn parcio ar y ffordd yn lle mynd i'r lle parcio. Mae gan y perchennog ddigon o arwyddion i ddangos y ffordd i'r man parcio ond na, mae'n haws parcio ar y ffordd a chreu problemau i'r sawl sydd yn teithio ar y ffordd.

Rhyw ddwy wythnos yn ôl fe fu damwain yno rhwng modur a fan. Diolch nad oedd y ddau yrrwr fawr gwaeth ond fe allasai fod wedi bod yn llawer gwaeth.

Os gwelwch yn dda, os am fynychu'r ty bwyta, cofiwch am arall sydd angen defnyddio y ffordd, yn enwedig y rhai sydd yn gorfod defnyddio y ffordd i fyny o Fachwen. Mae y tro yma yn anodd pan mae'r ffordd yn glir, ond yn andros o anodd pan mae'r holl gerbydau yn parcio o flaen y ty bwyta.

Gadael yr Ardal Dymunwn yn dda i Dave, Rita a Sara, Fron Heulog, sydd wedi gadael yr ardal ar ôl deugain mlynedd i fyw yn Llanberis. Gobeithio y byddant yn hapus yno; maent yn awr yn edrych i fyny ar yr hen ardal. Chwith yw peidio â gweld Dave ar y ffordd bob bore yn mynd â'r ci am dro. Yr ydym yn dymuno pob bendith ac iechyd ichi eich tri yn eich cartref newydd.

Tymor yr Arholiadau A ninnau yn awr yn nhymor yr arholiadau a'r tywydd, ar hyn o bryd, yn hyfryd, yr ydym yn cydymdeimlo yn fawr â'r rhai sydd yn eistedd yr arholiadau ac yn gorfod aros yn y ty i astudio. Yr ydym i gyd wedi gorfod ei wynebu ac, ar ddiwedd y dydd, fe fydd o werth mawr ichi.

Yr ydym yn dymuno pob llwyddiant ichi a phan ddaw y

canlyniadau fe fyddwch wedi anghofio am yr astudio. Pob lwc a llwyddiant ichi i gyd.

Eisteddfod yr Urdd Dymunwn bob llwyddiant i'r rhai a fydd yn teithio i lawr i'r de i gystadlu yn yr Eisteddfod. Os na fydd llwyddiant yn dod i'ch rhan, mae'r cystadlu ynddo'i hun yn help at lwyddiant yr Eisteddfod, a gobeithio am well lwc y flwyddyn nesaf.


Eglwys Cefn y Waun Bu i'r eglwys uchod golli aelod ffyddlon ym marwolaeth Mrs Olive Jones, 1 Hafod Oleu; ei diweddar wr, Emrys Wyn, yn un o blant ardal Dinorwig. Bu i Olive syrthio i lawr y grisiau ar 13eg o Dachwedd a thorri asgwrn yn ei gwddw. Bu rhwng byw a marw am bum mis ac fe ddiodeffodd gryn lawer. Fe fu Terry a Siân Elin yn hynod o garedig hefo hi. Fe aeth Olive drwy lawer cyn y ddamwain ond nid oes gennyf gof o weld neb yn dioddef fel ag y gwnaeth ac am gymaint o amser, er hyn i gyd yr oedd yn hynod o ddiolchgar am bob dim.

Bu ei hangladd yn gyhoeddus yn Amlogfa Bangor ar Ebrill 19, lle daeth tyrfa fawr ynghyd i dalu'r deyrnged olaf. Gwasanaethwyd gan ei Gweinidog, y Parch John Pritchard a rhoddwyd y weddi hynod o deimladwy gan y Parch Eifion Wyn Williams, Llanfairfechan.

Braf yw teimlo, ar ôl yr holl ddiodeff, ei bod hefo Emrys ac Anwen yn nwylo y Bugail Da.

Cydymdeimlwn unwaith eto hefo Terry, Siân Elin a'r teulu oll yn eu colled. Gobeithio y bydd i chi gael nerth oddi uchod yn y dyddiau tywyll yma, a chofio am yr amser da a gawsoch.

Cofion Ein cofion annwyl at Mrs Priscilla Williams a Mrs Megan Morris.



Mae rhai ohonoch yn gyfarwydd a gwaith Cynllun Cerdded a Darganfod Menter Fachwen sydd wedi bod yn cyhoeddi mapiau hanes ac archaeoleg ein bro ac ar draws gogledd Cymru ers sawl blwyddyn eisioes. Hefyd mae nifer dda ohonoch yn mynychu'r teithiau cerdded neu sgysiau'r cynllun.

O dro i dro bydd gwaith y cynllun yn dod i sylw cynulleidfa o ardaloedd llawer pellach ac yn Hydref 2016 cafodd Gareth Roberts, cyd-gysylltydd y Cynllun Cerdded a Darganfod, alwad ffon annisgwyl gan Hywel Roberts (dim perthynas) o Winona yn Minnesota, USA.

Un o Arthog, ger Ddolgellau yw Hywel yn wreiddiol sydd wedi bod yn byw yn yr USA ers dros 40 o flynyddoedd. Yn ddiweddar mae wedi sefydlu cwmni o'r enw 'Wild Wales Walkabouts & Tours' gyda'r bwriad a ddod a phobl o gyfandir America yma i 'ddarganfod' y Gymru sydd ddim i'w gweld mewn llyfrau tywys arferol i dwristiaid. Pan ddaeth Hywel ar draws gwaith Gareth a'r Cynllun Cerdded a Darganfod fe ddarganfu y prosiect perffaith iddo gyd-weithio ag ef. Yn digwydd bod, mae Gareth wedi bod yn deithiwr cyson i gyfandir gogledd America ers dros ugain mlynedd i grwydro ac ymweld a'i deulu yno, ac mae wastad wedi bod yn ymwybodol o'r ffaith nad yw'r Americanwyr yn arbennig yn gwybod digon amdanom, er eu bod yn ymwybodol o'r Alban ac o Iwerddon.

"Fyddai'n teimlo'n rhwystredig pan fyddai'n mynd i mewn i Ganolfannau Twristiaeth yn America a Chanada ac yn gweld yr holl wybodaeth gan Fyrddau Twristiaeth yr Alban, Iwerddon a Lloegr ond byth ddim byd am Gymru", meddai Gareth, "Er bod y Cymry wedi cael cymaint o ddylanwad ar hanes y cyfandir Americanaidd. Mae llawer yno'n dal o dan y camsyniad mai sir yn Lloegr ydym, ac mae angen newid hynny".

I werthu ei 'Wild Wales Tours & Walkabouts' penderfynodd Hywel Roberts fynd ati i fynychu ffeiriau masnach ac antur. Ar ddiwedd Mis Ebrill cafodd Gareth wahoddiad gan Hywel i'r Midwest Outdoor Adventure Expo yn Minneapolis, Minnesota i gynnal stondin a rhoi cyflwyniadau ym Mhrifysgol Minnesota am waith 'Cynllun Cerdded a Darganfod Menter Fachwen' ac i hybu ymwybyddiaeth o'n hardal ac Eryri yn arbennig; y diwylliant a'n hanes.

"Roedd y croeso a'r diddordeb yno yn anhygoel", meddai Gareth, "a fe lwyddom i lenwi'r neuadd ddarlithio yn y brifysgol a

PWYSIG PWYSIG PWYSIG

Oherwydd amgylchiadau, bydd yn rhaid derbyn newyddion pentref, erthyglau, digwyddiadau ac unrhyw eitem i'w gynnwys yn rhifyn Gorffennaf/Awst o'r "Eco"

ERBYN **DYDD IAU, 15fed o FEHEFIN.**

Ni ellir cynnwys unrhyw eitem sy'n cyrraedd wedi'r dyddiad hwn.



Royal Victoria Hotel LLANBERIS
www.theroyalvictoria.co.uk

Dathliadau • Achlysuron Arbennig • Cynadleddau
Pwyllgorau • Bwydlen Bar • Cinio Dydd Sul
• **PRIODASAU** •

Ffôn- **01286-870253**
enquiries@theroyalvictoria.co.uk

The ROYAL VICTORIA HOTEL
Snowdonia

MODURDY'R WYDDFA
Snowdon Garage
LLANBERIS

M.O.T
GWASANAETH
CYNNAL A CHADW

(01286) 870225

CYNLLUN CERDDED A DARGANFOD MENTER FACHWEN YN MINNESOTA HYRWYDDO EIN DIWYLLIANT AC ETIFEDDIAETH YNG NGOGLEDD AMERICA



chrosawu tua 15,000 o ymwelwyr i'r 'Expo'. Yn bendant roedd elfen o 'novelty ffactor' ynom gan fod y bobl o'n hamgylch yn son am lefydd mwy cyfarwydd i'r Americanwyr fel Alaska, Y Rockies ac ati ond roedd werth mynd a dechrau ein gosod ar y map. Gallai ddim pwysleisio gormod bod gwir angen i ni wneud hynny".

Roedd yn ddiddorol i Gareth ddysgu bod Minnesota yn un o'r taleithiau lle ymsefydlodd dros 750 o'r Cymry nol yn y 19ed ganrif. Mae eu hanesion yn cael eu hadrodd mewn llyfr o'r enw 'Hanes y Cymry yn Minnesota' ac mae cyfieithiad Saesneg gan Martha A. Davies ar gael yn y siopau yno. Cafodd Gareth y fraint o gwrdd ac un neu ddau o ddisgynyddion y Cymry ddaeth ar draws y stondin yn ddamweiniol. Hefyd, cafodd Gareth un ymwelwraig arbennig iawn, sef Mary Mergenthal, cyn berchennog a golygydd

'Y Drych', papur newydd Cymraeg America a braf oedd i'r ddau gael sgwrsio yn y Gymraeg.

Erbyn i chi ddarllen yr erthygl hon bydd Hywel Roberts a'r criw cyntaf o'r 'Wild Wales Tours' wedi bod yn ymweld a'r ardal ac wedi eu tywys ar daith gerdded i ddarganfod ychydig o'n hanes ac archaeoleg coll y fro gyda Gareth a Martin Davies o Menter Fachwen a'r gobaith yw bydd o leiaf ddau griw yn dod yma bob blwyddyn.

Aeth Gareth a chyflenwad da o fapiau hanes y fro gan Menter Fachwen ac nawr mae Ann, gwraig Hywel Roberts sydd yn arlunydd ei hun am fynd ati i greu un tebyg o Winona, Minnesota. Bu hi a Gareth treulio ychydig o amser yn dechrau ei gynllunio. Diddorol fydd gweld be ddaw o hynny.

Erydu'r Mynydd



O bell roedd yn edrych fel pe bai rhyw gawr o golffiwr wedi colli ei bêl ar lethrau Moel Eilio. Ond o ddynesu, gweld mai cerbyd oedd yno wedi ei barcio? ei adael? ar draws y llwybr ar ran mwyaf serth y mynydd. A sylweddoli mai'r un cerbyd ydoedd a hwnnw a safai'n dalog ar y copa ddeuddydd ynghynt. A dim golwg o'i berchennog yn unman.

Yda chi'n cofio'r stŵr rai blynyddoedd yn ôl pan ddefnyddiwyd yr union fynydd i ffilmio hysbyseb i Gwmni Land Rover? Ydi pethau ryw faint gwell? Dim ond gofyn.



Ysgol Waunfawr

Nosweithiau Rhieni Cafwyd cynrychiolaeth ragorol yn y Nosweithiau Rhieni cyn y Pasg ac yn y nosweithiau Meithrin ddiwedd mis Ebrill.

Diwrnod Het Bu i'r disgyblion wisgo het ddiwrnod olaf y tymor er mwyn cefnogi Ymgyrch Cancr yr Ymennydd. Diolch am eich cyfraniadau - casglwyd £425.00 at yr achos haeddiannol hwn.

Opera Cenedlaethol Cymru Bydd Cwmni Opera Cenedlaethol Cymru yn cynnal sesiynau canu gyda disgyblion blwyddyn 5 a 4 dros y mis nesaf. Pinacl y gweithgareddau fydd cael perfformio yn Pontio gyda'r Cwmni ddiwedd mis Mehefin.

Clwb Pêl-droed Porthmadog Bydd Gethin Lloyd Jones o Glwb Pêl-droed Porthmadog yn cynnal sesiynau rhifedd gyda bechgyn a merched blwyddyn 5 a 6 dros y pum wythnos nesaf.

Trip Dosbarth Derbyn Cafodd disgyblion y dosbarth derbyn a meithrin amser gwerth chweil yn Ninas Dinlle bythefnos yn ôl. Roedd hi'n ddiwrnod heulog braf a chawsant bicnic a chynnal arolwg a chasglu sbwriel ar y traeth.

Urdd Cafwyd noson o chwaraeon hwyl yn y ganolfan yn ddiweddar a daeth Steven Jones o Gwmni Anelu i gynnal noson Cymorth Cyntaf gyda'r aelodau.

Wythnos Cerdded i'r Ysgol Byddwn yn cefnogi Ymgyrch Wythnos Cerdded i'r Ysgol yr wythnos nesaf, sef Mai 15fed – 19eg. Dosbarthwyd 'pedometers' i'r disgyblion heddiw er mwyn cadw cofnod faint o gamau fyddant yn gymryd dros yr wythnos. Byddwn yn rhannu tystysgrifau a nifer o wobrau ar ddiwedd yr wythnos i'r disgyblion a gymerodd

Gwasanaethau Eglwys y Waun am fis Mehefin

- 4: Cyfarfod Gweddi
- 11: Mr John Roberts
- 18: I'w drefnu
- 25: Parch Olwen Williams, Tudweiliog

Clwb 300 Enillwyr y Clwb 300 am fis Ebrill oedd: £30: Mrs Alma Jones, Tan y Fron; £20: Mr Gareth Jones, Glyn Ceris; £10: Mr C.S. Hughes, Pendaseithin.

Ymddiheuro a Chywiro Rwy'n ymddiheuro i deulu a ffrindiau Mrs Hilda Williams am eu camarwain i fynd i'r man anghywir i edrych amdani. Yng Nghartref Preswyl Willow Hall, Caernarfon, y mae hi yn cael gofal ar hyn o bryd ac nid yng Nghartref Nyrsio Penisarwaun, fel y nodais yn yr Eco y mis diwethaf. Anfonwn ein cofion cynnes atoch, Mrs Williams.

Ymddiheuraf hefyd i Gethin a Catrin, sy'n byw yma yn y Waun am alw Catrin yn Siân wrth eu llongyfarch ar achlysur eu priodas yn yr Eco mis diwethaf. Gobeithio'n wir y caf faddeuant.

Pen-blwydd Priodas Bu Gareth a Jeni, Glyn Ceris, Stad Bodhyfryd, yn dathlu eu Priodas Aur yn ystod y mis.

Dathlu eu Priodas Ddiamwnt y bu David a Gwladys Greasly, Min Afon, yn ystod y mis.

Llongyfarchiadau mawr ichi eich pedwar a phob dymuniad da i'r dyfodol.

Pen-blwydd Arbennig Yn ystod mis Mawrth bu Robert Dale, Stad Ty Hen, yn dathlu cyrraedd ei ben-blwydd yn


18 oed. Llongyfarchiadau a phob dymuniad da iti, Robert. Gobeithio iti fwynhau dy ddiwrnod. Mae'n ddrwg gennyf fod yn hwyr yn dy llongyfarch.

Adref o'r Ysbyty Yn ystod y mis bu Mrs Maureen Hughes, Bryn Peris; Wendy Jones, Stad Dôl Erddi ac Annwen Charge, Llifon, Teras Glyn Afon, yn derbyn triniaeth yn yr ysbyty. Da deall eich bod yn gwella ac wedi cael dod adref o'r ysbyty.

Profedigaeth Yn ystod y mis daeth y newyddion trist am farwolaeth Yvonne, Gwastadfaes, a oedd yn byw yng Nghaer. Cydymdeimlwn yn ddwys ag Emrys, ei brawd, a'r teulu yn eu colled a'u hiraeth o golli un a oedd yn annwyl iawn iddynt.

Neges Bwysig – Rhifyn Gorffennaf/Awst

Bydd yn rhaid dod â newyddion y pentref ar gyfer y rhifyn nesaf o'r Eco i law erbyn DYDD IAU, 15fed o FEHEFIN, a'r rhifyn yma fydd yr olaf cyn yr haf. Felly os oes achlysur neu ddigwyddiad yn ystod gwyliau'r haf ac eisiau cael ei hysbysebu yn yr Eco, dyma'r rhifyn i wneud hynny. Bydd y rhifyn allan o'r wasg dydd Gwener, Mehefin 30.



**GWAITH
COFFAOL
LLANRUG**

**Ffôn Gwaith
(01286) 672898**

**Cartref
(01286) 871833
Symudol 07778 127394**

Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA

Dylan Griffith
Trefnwr Angladdau Annibynnol a Lleol

TROS-Y-WAEN PENISARWAUN

Gwaith Cerrig Beddi
Gwasanaeth Teimladwy a Phersonol
24 Awr y Dydd
Capel Gorffwys Preifat
Yn Gwasanaethu Yr Holl Ardal

Ffoniwch DYLAN ar 01286 871833 (SYMUDOL- 07778127394)


Hefyd



CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA
Cyrraeddych Mewn Steil- Mewn Cerbyd *Rolls Royce*
AR GYFER PRIODASAU, PENBLWYDDI ac ACHLYSURON ARBENNIG ERAILL

Merched y Wawr Cafwyd cyfarfod hynod ddifys nos Iau, 26 Ebrill, diolch i un o'n haelodau, Pegi Talfryn, a gamodd i'r adwy ar fyr rybudd ar ôl i'n siaradwraig wadd orfod tynnu yn ôl. O'r Unol Daleithiau y daw Pegi'n wreiddiol ond mae wedi meistrol'i'r Gymraeg yn drylwyr, a chawsom sgwrs fywiog ganddi yn rhoi ychydig o hanes ei magwraeth, sut y daeth i Gymru i astudio yn y brifysgol a dechrau dysgu Cymraeg. Cyfarfu â'i g?r, Ioan, a throdd arhosiad tair blynedd yn arhosiad parhaol, ac mae Cymru wedi elwa o frwdfrydedd ac ymroddiad y ddau dros ddysgu Cymraeg i eraill, ac arloesi dulliau newydd o ddysgu'r iaith. Ond er mor ddifys oedd y sgwrs bu'n rhaid i ninnau weithio hefyd wrth i Pegi ein tywys i ymarfer ychydig o Ffrangeg, a hefyd ein herio ynghylch ein hagweddau at ddysgwyr trwy gyfres o gwestiynau. Rhoddwyd y diolchiadau gan Heulwen Huws a Shirley a Janet fu'n gyfrifol am y lluniaeth.

Cynhelir ein cyfarfod nesaf yn y Ganolfan nos Iau, Mai 25, pryd y bydd Rhian Humphreys o Gyngor ar Bopeth yn sôn ychydig am ei gwaith. I ddirwyn y flwyddyn i ben byddwn yn ymweld ag Amgueddfa Forwrol Nefyn ar Fehefin 22 gyda swper yng ngwesty Nanhoron i ddilyn. Croeso cynnes iawn i aelodau newydd.



Pen-Blwydd Hapus Hoffai Gareth, Sioned a'r teulu ddymuno pen blwydd hapus i Elis Pritchard a fydd yn 1 oed ar y 27ain o Fehefin.

Diolch Gair bach i ddiolch i holl etholwyr Llanberis a Nant Peris am ymddiried a rhoi eu cefnogaeth i mi yn yr Etholiad, a diolch hefyd i'r Cyn-gynghorydd, Trefor O. Edwards, am ei waith dros y deunaw mlynedd diwethaf. Diolch yn fawr iawn i bawb, Kevin Morris Jones.

Tawelwch

Morus y Defaid ofynnodd pan fu farw fy mam, 'Be nei di â'r hen le rwan a'r ddau 'di mynd?' hen gwestiwn hy - 'Ei gadw i'r teulu i ddod tua thre...' 'Wel ia, - wyddost ti ddim pa bryd fydd o'n handi - rhyw gangen i glwydo o fyd yr ochor draw acw, - rhyw ddydd mi gei siawns eto i drampio'r hen fro...' Mae tipyn o ddŵr wedi mynd o dan bont Penllyn er hynny, ond yma 'r wyf heneiddio - a 'sgota tipyn - o'r lan... a bellach, di-gwch, di archoll ôl rhwyf ar Badarn - ond, lle bu 'sioe' dahlias 'nhad mae plant fy mhylant yn chwarae'n iaith eu gwlad.

Norman Closs

Cŵn Tywys Gwynedd yn cerdded ymlaen!



Mae Cŵn Tywys Gwynedd wedi trefnu taith gerdded fore dydd Sadwrn, Mehefin y 10fed, er cof ci tywys arbennig.

Bleiddgi oedd Folly, un o'r 4 ci tywys cyntaf erioed yn y DU. Ym 1931, daeth hi'n bartner i Thomas ap Rhys, cyn-filwr o Fangor gafodd ei ddallu yn y Rhyfel Byd Cyntaf.

Mae'r gangen yn gobeithio codi £10,000 i enwi ci bach tywys newydd er cof Folly. Bydd canghennau Conwy, Sir Ddinbych, Wrecsam a Dyffryn Clwyd yn ymuno yn yr hwyl ac yn trefnu teithiau tebyg.

Cafodd Thomas ap Rhys ei eni ym 1897 yng Ngholeg Bala Bangor. Roedd ei dad yn ddarlithydd yno, a'i daid yn un o sefydlwyr y Wladfa.

Yn 18 oed, ymunodd Thomas â'r Royal Engineers ac aeth i ymladd yn Ffrainc. Ei rif yn y Fyddin oedd 113270. Cafodd ei ddallu ym 1917, ac ar ôl dod adref cafodd ei hyfforddi i weithio fel tylinwr.

Yn ystod yr Ail Ryfel Byd, sylweddolodd Thomas ei fod yn gallu helpu milwyr gyda'i sgiliau newydd, ac aeth yn ffisiotherapydd yn Ysbyty Caernarfon a Môn ym Mangor. Cafodd ei ddewis fel ymgeisydd seneddol y Blaid Lafur yng Nghaernarfon ym 1929, gan gollu yn erbyn David Lloyd-George.

Dywedodd Thomas ei fod e'n teimlo'n ddiogel a hyderus oherwydd Folly. Aeth ymlaen i ddefnyddio cyfres o gŵn tywys am 48 o flynyddoedd cyn ei farwolaeth ym 1978, yn 81 oed.

Meddai Jacquie Hughes-Jones o Guide Dogs Cymru: "Roedd yr ardal mor falch o fod yn gartref i un o'r cŵn tywys gwreiddiol, ac mae'r gangen eisiau sicrhau na chaiff Folly ei hanghofio byth.

"Bydd y daith yn dathlu'r berthynas rhwng cŵn a'u perchnogion, ac mae croeso i aelodau'r cyhoedd a'u cŵn gerdded gyda ni o Gaernarfon i'r Felinheli."

Bydd cerddwyr yn cwrdd ym maes parcio'r Harbour Master ger Castell Caernarfon am 11yb. Am ragor o fanylion a ffurflen noddi, ffoniwch Jacquie Hughes-Jones ar 07919 228635 neu ebostiwch Jacquie.Hughesjones@guidedogs.org.uk



Ysgol Brynrefail

Paratoi at arholiadau TGAU Mathemateg.

Bu nifer dda o ddisgyblion blwyddyn 11 yn adolygu ar gyfer eu harholiadau Mathemateg yn Neuadd Ysgol Brynrefail ar ddydd Sul, Mai 14eg.

Da iawn chi disgyblion grwpiau Targed Maths Ysgol Brynrefail am eich presenoldeb ardderchog yn y sesiwn, nifer sylweddol yn uwch nag ysgolion eraill y sir. Roedd y disgyblion wedi cael ei rhannu i dri grwp, gyda dau o'r rhain yn cynnwys disgyblion yr ysgol.

Tynnwyd y llun yma ar amser cinio blen roedd y disgyblion yn cymeryd rhan mewn gweithgaredd 'speed dating', un yn gofyn cwestiwn, y partner yn ateb gyda'r cymydog yn rhoi cymorth.

Pob lwc gyda'r arholiadau Mathemateg ym mis Mai a Mehefin!



Longyfarchiadau mawr Cai Williams—Eto!

Fe gofiwch i Cai, blwyddyn 10 gael ei ddewis fel rhan o 'Treialon Cam 3 Academi Gwibio Cymru – Rhaglen Adnabod Talent'. Wel, yn dilyn cyfnod o dreial yn y Felodrom yn Lerpwl, fel lwyddodd i gael ei ddewis i garfan Cymru!! Bydd yn awr yn paratoi ar gyfer ymgeisio i sicrhau amser ar gyfer cymhwyso i'r Tim Olympaidd. Hwyl fawr a dymuniadau gorau i ti Cai.

HOFFI
DATBLYG

MAE CLW

CLW

BF

SESIYN
29
BRAILS

UNRHYW



Cwrs Meistroli Mathemateg

Llongyfarchiadau i'r pedwar yma ; Alys Chisolm, Cara Jones, Celt Moss a Sion Jones am gwblhau cwrs Meistroli Mathemateg RI (Royal Institution) a gynhallwyd dros nifer o wythnosau yn y Brifysgol ym Mangor.



Llongyfarchiadau mawr Blwyddyn 7 + 8

Blwyddyn 7 wedi ennill Cwpan Gwynedd 5 - 2 yn erbyn Ysgol Moelwyn.
Blwyddyn 8 wedi ennill Cwpan Gwynedd 2 - 2 ac yna 4 - 3 gyda cic o'r smotyn.
Da iawn hogiau!

PEL-RWYD? DYCH CHI EISIAU
U EICH SGILIAU? NEU CHWARAE
MEWN CYNGHRAIR?

WB PEL-RWYD NEWYDD WEDI EI
SEFYDLU!

WB PÊL-RWYD



BRYNREFAIL

IAU YN DECHRAU MEHEFIN
AIN YNG NGHANOLFAN
FORD, BANGOR. (DŌM) £2 Y
SESIWN. 7PM - 9PM.
BL6+

YBODAETH FELLACH CYSYLLTWEH A LLINOS
DOBBINS - YSGOL BRYNREFAIL



Croeso Llongyfarchiadau i'r Cynghorydd Elwyn Jones, Rhiwlas, ar gael ei ethol i'n cynrychioli ar yr awdurdod lleol yn ddiweddar. Rydym yn edrych ymlaen i ddod i adnabod y gwr o Rhiwlas yn well dros y blynyddoedd nesa, a chael cynrychiolaeth ganddo ar faterion perthnasol yn y Cyngor Sir.

Pob Lwc Pob dymuniad da i bawb o'r pentref sydd yn sefyll arholiadau TGAU/LEFEL A dros yr wythnosau nesaf. Dyma adeg anoddaf o'r flwyddyn i nifer o'n pobl ifanc ac mae pwysau mawr arnyn nhw i wneud yn dda. Mi fydd o drosodd cyn bo hir - a haf braf a phoeth o'ch blaenau gobeithio!

Cronfa'r Pensiynwyr Enillydd y bêl mis Ebrill oedd Mrs Blodwen Mowll gyda rhif 7. Llongyfarchiadau!

Diolchiadau Dymuna Mrs Nannie Evans, 26 Bryn Tirion, ddiolch yn fawr iawn i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am eu caredigrwydd tuag ati ar achlysur dathlu ei phen-blwydd yn 95 yn ddiweddar.

Dymuna Arnold a Pat Jones, Tai Arthur, ddatgan eu diolch i bawb am y dymuniadau gorau a dderbyniwyd ar achlysur dathlu eu pen-blwydd Priodas Aur.

Ysgol Gymuned Penisarwaen
Taith Gerdded Noddedig - Cynhaliwyd Taith Gerdded CA2 dydd Gwener, Ebrill 28ain, o amgylch Llyn Padarn. Pnawn dydd Iau, Mai 4ydd, aeth plant y Cyfnod Sylfaen ar eu taith hwythau o

Benisarwaen i lawr i Stabla ac yn ôl i'r ysgol i fyny lon bach Cae Hywel. Diolch yn fawr i bawb am noddi'r plant ac am gymorth rhai o'r rhieni ar y teithiau. Mae'r diolch mwyaf i'r plant i gyd am eu hymdrech ac am ymddwyn yn ardderchog. Da iawn chi bawb! Casglwyd £1,403.70c.

Ocsiwn Addewidion - Roedd yr Ocsiwn addewidion a drefnwyd gan "Cyfeillion" yr ysgol nos Iau, Mai 11eg, yn noson llwyddiannus dros ben. Roedd yn braf gweld cefnogaeth arbennig gan y rhieni a'r Gymuned gyda'r Neuadd yn orlawn. Diolch yn fawr iawn i bawb a gyfrannodd tuag at lwyddiant y noson mewn unrhyw ddull - yr holl addewidion, rhoddion, bwyd a phob cymorth gyda'r trefniadau ymlaen llaw ac ar y noson. Diolch arbennig i Hefin (yr Ocsiwniar hwyliog) a Siôn o gwmni Jones & Peckover. Codwyd y swm sylweddol o £3,558 i gronfa'r "Cyfeillion". Diolch yn fawr iawn i Mrs Avril Jones o Gwmni "Santander" am ymuno â ni ar y noson ac am ei gwaith yn trefnu y byddwn yn derbyn "Match funding" gan y cwmni. Mae ein gwerthfawrogiad yn fawr iawn i chi gyd.

Eglwys Santes Helens
Gwasanaethau mis Mehefin
Cymun Bendigaid pob dydd Sul am 11 y bore.
Gyrfa Chwist Cynhelir gyrfa chwist yn neuadd yr Eglwys pob nos Fawrth am 7.30yh

Bingo Arian Cynhelir bingo yn neuadd yn Eglwys nos Fercher, Mehefin 14eg a 21ain, am 7yh

Disgo Cynhelir Disgo yn neuadd yr Eglwys nos Wener, Mehefin 2il, am 6.30yh, Trefnir y noson gan bwyllgor y Carnifal. Yn ystod y noson mi fydd Brenhines a cwrt y Carnifal yn cael eu dewis.

Wythnos weithgareddau a charnifal

Nos Lun, Mehefin 26ain, Bingo yn neuadd yr Eglwys am 6.30yh

Nos Fawrth, Mehefin 27ain, Gyrfa Chwist yn neuadd yr Eglwys am 7.30yh

Nos Fercher, Mehefin 28ain, Mabolgampau ar gae yr ysgol am 6.30yh

Nos Iau, Mehefin 29ain, Disgo, yn neuadd yr Eglwys am 6.30yh

Nos Wener, Mehefin 30ain, Helfa drysor, yn dechrau o neuadd yr Eglwys o 6yh 6.45yh, ac yn diweddu mewn gwesty am fwyd.

Dydd Sadwrn, Gorffennaf 1af, Y carnifal Gorymdaith yn dechrau o'r Cartref nyrsio am 1.30yp i gae'r ysgol, Stondinau, castell neidio, raffl, siop, Hufen ia ac yn y blaen, sêl cist ceir £3 y car.

Dydd Sul, Gorffennaf 2il, Cymanfa Ganu yn Eglwys Santes Helen am 6.30yh gyda eitemau gan Gôr o blant yr Ysgol Gymuned, Magi Tudur a Chôr Meibion Dyffryn Peris. Organydd: Dr William Munro, Arweinydd: Mr Dafydd Roberts.

Estynnir croeso cynnes i bawb gymeryd rhan a mwynhau yr holl weithgareddau.

Diolch Dymuna Mair, Amanda, Yvonne, a'r teulu ddiolch i'w teulu, ffrindiau a chymdogion am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli gwr, tad, taid, brawd a ffrind arbennig iawn, sef Michael Douglas Orrock, Glanrafon Isaf, Penisarwaen. Diolch yn arbennig hefyd i Dr Huw Gwilym am ei ofal tyner ohono a staff Ward Alaw, Ysbyty Gwynedd. Diolch hefyd i Lolo Owen a'r cwmni ym Mhenygroes am y trefniadau angladd, ac am eu caredigrwydd tuag at y teulu. Diolch i bawb gyfrannodd yn ariannol er cof am Michael. Rhannwyd yr arian rhwng meddygfa Llanrug a Waunfawr a Ward Alaw.

Pwyllgor Neuadd Gymuned Tynnwyd Clwb Cant mis Mai a'r enillwyr lwcus oedd Wendy Phillips, Waen, ac Irfon Hughes, Waen.

Dalier Sylw - cynhelir 'Hwyl yr Haf' rwan ar ddydd Mercher, Mehefin 7fed, yn y Neuadd Gymuned neu y tu allan i'r Neuadd os bydd y tywydd yn ffafriol - hyn oherwydd yr Etholiad ar Fehefin 8fed. Bydd stondinau amrywiol, gemau a phaned a chyfle i gymdeithasu. Erfynnir am eich cefnogaeth gan fod angen casglu arian i beintio'r rhan Gymunedol a'r Ysgol. Bydd yr ysgol yn dathlu 25 mlynedd ers ei hagog yn Hydref 1982 ac mae angen côt o baent arni erbyn hyn.

DODREFN A LLORIAU
PERKINS
FURNITURE & FLOORING

••• 01286 673535 •••

www.perkinsfurniture.co.uk

16 Stryd Porth Mawr, Caernarfon, Gwynedd. LL55 1AG

ARVONIA



- ✓ Gwyliau cerbyd moethus Prydeinig a Chyfandirol.
- ✓ Cerbydau moethus ar gael ar gyfer llogi preifat.
- ✓ Adran teithiau grŵp.
- ✓ Tocynnau rhodd.
- ✓ I weld ein holl deithiau a chynigion arbennig ewch i'n gwefan.

01286-675175 www.arvoniaco.uk

Parhad PENISARWAUN

Dymunir diolch i Hefin Williams, Ffiolau'r Grug, Rhiwlas, am ei gefnogaeth i'n gweithgareddau yma ym Mhenisarwaun dros y blynyddoedd, gan obeithio y cawn yr un gefnogaeth gan Elwyn Jones, Rhiwlas, fel y Cynghorydd Sir newydd.

Eisteddfod Bentref 2017 Cynhelir yr Eisteddfod eleni yn y Neuadd Gymuned am 6.00 nos Fercher, Gorffennaf Sed. Cynhelir yr ymarferion ar nosweithiau Llun, Mehefin 12fed o 6-7 o'r gloch tan yr Eisteddfod. Cynhaliwyd Noson Bingo ar Fai 2Sain a diolchir i bawb a gefnogodd y gweithgaredd hwyliog yma.

Ysgol Sul Bosra Bu cynnwrf mawr fore Sul, Mai 14eg, wrth i'r plant weld bod eu hadau Blodau Haul wedi egino. Maent hefyd yn cymryd diddordeb mawr yn y bwrdd natur ac yn barod yn chwilio am y blodau gwyllt arbennig sydd o'u cwmpas a dysgu eu henwau. Cawsant hwyl ar arlunio a labelu a chreu gweddiau o ddiolch am wyrth byd natur. Bydd yr Ysgol Sul yn ailgychwyn y Sul wedi i'r ysgol agor ar ôl gwyliau'r Sulgwyn.

Diolch Dymuna Eifion Griffith, 12 Llys y Gwynt, ddiolch yn ddiffuant i'w deulu, cymdogion a'i ffrindiau am y cardia niferus, rhoddion, galwadau ffôn ac ymweliadau ar achlysur ei ben-blwydd yn 90 oed yn ddiweddar. Diolch o galon i chi i gyd.

Yn yr un modd dymuna Nannie Evans, 26 Bryntirion, ddiolch i'r teulu a'i ffrindiau am gofio am ei phen-blwydd hithau.

Llongyfarchiadau Llongyferchir Phyllis, Rhos Fair, ar ei derbyn i Wisg Las Gorsedd Beirdd Cymru yn Eisteddfod Genedlaethol Cymru Môn eleni, a hynny'n gwbl haeddiannol wedi ei holl gefnogaeth i Gymru, i'r Iaith Gymraeg a'i Chymuned.

Ymchwil y Galon Rhwng Mehefin 1af - a 23ain bydd Elizabeth Jones ac Ann Ifans yn dod o amgylch yn casglu at 'Ymchwil y Galon'. Hyderir y ceir yr ymateb gwych a gafwyd llynedd eto eleni. Diolchir i chi am eich haelioni ymlaen llaw.

Cydymdeimlir â Katy Williams a'r teulu oll o golli mam, mam yng nghyfraith a nain falch i'w hwyron a'i hwyresau.

Sefydliad Prydeinig y Galon

Cangen Caernarfon a'r Cylch

Bu 2016 yn flwyddyn brysur iawn i grŵp bychan o wirfoddolwyr Cangen Caernarfon a'r Cylch o Sefydliad Prydeinig y Galon a llwyddwyd i hel bron i £8,000 tuag at yr achos. Cynhaliwyd bore coffi yn yr Institiwt yng Nghaernarfon ar 19 o Fai a bydd aelodau yn mynd o ddrws i ddrws ym Mehefin i gasglu arian. Os hoffech ymuno â ni, rydym yn cyfarfod ddwywaith y flwyddyn i drefnu gweithgareddau codi arian, megis Bore Coffi, Ffair Hydref, Casgliad o ddrws i ddrws ayyb. Croeso ichi fy ffonio, Mair Richards 07400045240 am fwy o fanylion.



Gwesty Dolbadarn
Llanberis

Ffôn-(01286)-870277

y CYNLLUN CERDDED A DARGANFOD
the WALK AND DISCOVER PROJECT

menter
fachwen

RHIF ELUSEN / CHARITY NUMBER: 701163

www.menterfachwen.org.uk

CYFENTER
CALENIEB



Menter
Môn



TEITHIAU CERDDED MIS MEHEFIN

MAWRTH 6 MEHEFIN 10.00 yb

CERDDED LÔN RHUFEINIG A GORESGYNIAD YNYS MÔN (3 milltir)

CYCHWYN: Y GORS BACH, LLANDDEINIOLEN

CYMEDROL. ANGEN SGIDIAU CERDDED AR LWYBRAU CYHOEDDUS SYDD GALLU BOD YN WLYB AR OL GLAW.

MERCHER 14 MEHEFIN 10.00 yb

TREGARTH, YR ARCHAEOLEG A'R HEN RHEILFFORDD I FETHESDA (3½ milltir)

CYCHWYN: MAES CHWARAE TREGARTH (GER FFORDD TANRHIW)

CYMEDROL. SGIDIAU CERDDED. LLWYBRAU CYHOEDDUS O DRO I DRO.

SUL 25 MEHEFIN 2.00 yp

TAITH GERDDED MAP PENTIR: HANESION ARDAL PENTIR (3 milltir)

CYCHWYN: TAFARN Y FAENOL, PENTIR

AR LWYBRAU CYHOEDDUS FELLY ANGEN SGIDIAU CERDDED

MERCHER 28 MEHEFIN 10.00 yb

HANESION AC ARCHAEOLEG AR HYD YR HEN RHEILFFORDD O RHOSTRYFAN I BRYNGWYN (3½ milltir)

GYDA MARTIN DAVIES O 'ARDAL-HANES LLEOL'

CYCHWYN: SAFLE HEN GORSAF RHEILFFORDD RHOSTRYFAN (TU CEFN I'R YSGOL AR LÔN BRO WYLED)

SGIDIAU CERDDED.

ARDDANGOSFA

TRYSORAU YR YMERODRAETH RHUFEINIG O SEGONTIWM Gan 'Treftadaeth Gwydion'

YN: SIOP A CANOLFAN MENTER FACHWEN, TY CAXTON, STRYD FAWR, LLANBERIS

TRWY'R MIS. AR AGOR 9.30 - 4.00 LLUN-GWENER A 10-3 DYDD SADWRN.

ECO'r
Wyddfa

**Cefnogwch
ein
hysbysebwr**

**RHOSTIO
MOCHYN**

Gyda saws afal a stwffin mewn rholiau

**AR GYFER
POB
ACHLYSUR**

**DEWGS MAE
O'N FLASUS**

PARTION • PRIODASAU • PEN BLWYDD
BEDYDD • DAWNS • GWYLLIAU
CIG O FFERMYDD LLEOL
PARTION RHWNG 40-400!

Cysylltwch a
John Brynafon
LLANRUG

www.ydyncig.co.uk

675190 • 673188
Symudol- 07798 718188

Newyddion yr Ysgol Gynradd.



Bu plant dosbarthiadau 1 a 2 ar ymweliad i Fenter Fachwen i ddysgu am wahanol flodau a phlanhigion.

Hoffai Miss Lewis longyfarch y clwb cywaith am ddod yn drydydd yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd am eu casgliad o waith creadigol. Bu'r genod wrthi'n brysur iawn yn cynhyrchu cylchgrawn penigamp. Diolch o galon iddynt am eu brwdfrydedd a'u hymdrechion gwych.

Daeth y dyn tan i weld blwyddyn 5 yn ddiweddar. Sgwrsiodd am sut i gadw'n saff yn y cartref gan nodi pwysigrwydd larwm tan a larwm mwg. Roedd yn sesiwn ddifyr a buddiol dros ben, a llawer iawn o negeseuon pwysig i ni gyd.

Llongyfarchiadau i dim pel-droed genethod yr Urdd a gyrhaeddodd rownd gyn-derfynol y gystadleuaeth genedlaethol yn Aberystwyth.



Te Penblwydd



Cynhaliwyd te anghyffredin iawn ymhlith aelodau Eglwys St Mihangel, Llanrug yn y Sefydliad Coffa, brynhawn Sadwrn, Mai 6ed. Dathlwydd penblwydd yn 70, dau benblwydd yn 80, un yn 90 ac un arbennig iawn - 97 mlwydd oed.

Mwynhawyd y te prynhawn yng nghwmni cyfeillion. Cafwyd amser pleserus iawn gan bawb.

Diolch cynhesaf i'w bawb a gyfrannodd mewn unrhyw fodd tuag at y te, ac yn arbennig i Gwyn a Myfyr am olchi'r holl lestri !

Parhad LLANRUG

Plaid Cymru Enillwyr Clwb Cant mis Mai 1. Geraint Parry; 2. Valmai Owen. **Pen-blwyddi Arbennig** Dymunwn longyfarch Mai Davies, Bod Awel, Ffordd yr Orsaf, ar ddathlu ei phen-blwydd yn 80 mlwydd oed ar 27ain o Fai. Gobeithio bod dathlu wedi bod hefo'r teulu a ffrindiau.

Yn yr un modd dymunwn longyfarch Emyr Jones, 47 Glanffynnon, ar ddathlu ei ben-blwydd yntau yn 70 oed ar 6ed o Fai. Brafiawn oedd gweld Rhys adref am y penwythnos hefyd.

Ar y 30ain o Fai, bydd Margaret Parry, Bro Dawel, Ffordd Llanberis, yn cael ei phen-blwydd hithau yn 70 oed. Deallwn fod y dathlu wedi cychwyn yn barod!

Pob dymuniad da i chi eich tri.

Babis newydd Llongyfarchiadau mawr i Colin a Nerys, 24 Glanffynnon, ar ddod yn daid a nain am y tro cyntaf. Ganwyd merch fach i Lisa a Nicky, sef Sophia. Mae hefyd yn or-wyres i Mrs Eileen Jones, Hafan Elan. Pob dymuniad da i chi i gyd.

Daeth Harry a Jude Hughes yn daid a nain eto pan anwyd Loti Angharad i Siân a Colin o Sw'n yr Efail. Llongyfarchiadau hefyd i Taid a Nain Nerys a John, Byngalo Glanffynnon. Pob dymuniad da i chithau hefyd.

Llongyfarchiadau mawr hefyd i Frank a Meryl Green ar ddod yn daid a nain i Huw bach, mab Ieuan a'i wraig, Michelle, draw yn Nulyn. Pob bendith arnoch.

Profedigaeth Estynnwn ein cydymdeimlad diffuant i Keith, Beverley, Kelly a Lyndsey Roberts a'u teuluoedd, Sychnant, Ffordd yr Orsaf, yn eu profedigaeth enfawr yn dilyn marwolaeth, ar ôl salwch hir, Hefina yn 57 mlwydd oed. Roedd yn wraig, mam, mam yng nghyfraith, nain a chwaer annwyl iawn. Cydymdeimlwn â chwi i gyd a chofion at Eirlys,

Goronwy a'u teulu, Nant y Glyn, a'r teulu eraill yn yr ardal. **Llongyfarchiadau** Croesawn Owain ap Gruffydd, mab Idwal a Bethanne Williams, yn ôl i'r ardal. Penodwyd Owain yn Rheolwr Technegol gyda chwmni 'Welsh Lady Preserves', Y Ffor. Pob hwyl.

Gwellhad Buan Braf yw dymuno gwellhad buan i Megan Roberts, Gregynnog, sydd wedi derbyn llawdriniaeth hir ymaros. Mae ar y ffordd yn awr i gael bywyd llai poenus. Pob dymuniad da i chi.

Capel y Rhos Oedfaon mis Mehefin

4: Y Gweinidog, y Parch Marcus W. Robinson

11: Canon Idris Tomos, Deiniolen

18: Y Gweinidog

25: Oedfa i'w threfnu.

Merched y Wawr Nos Fawrth, Mai 9fed, estynnwyd croeso cynnes i bawb gan y Llywydd, Margaret Parry, a chychwynwyd ein cyfarfod Blynyddol gyda Chan y Mudiad gyda Mair yn cyfeilio. Cydymdeimlwyd yn ddwys â Meirwen a'r teulu yn ei phrofedigaeth o golli ei mam. Bu Meirwen yn hynod ofalus ohoni yn ystod ei chystudd hir. Derbyniwyd cerdyn o ddiolch gan Megan wedi ei thriniaeth hir ddisgwylidig i'w chlun yn Ysbyty Gwynedd a da deall ei bod yn gwella'n dda.

Darllenwyd Cofnodion Blynyddol 2016 ac fe'u cafwyd yn gywir. Bu ethol Swyddogion 2017-18 yn rhwydd, gyda Bethanne yn barod i afael yn awenau'r Llywydd; Carys, Gwenda ac Eryl fel Ysgrifenyddion a Pat a Julie fel Trysoryddion.

Llongyfarchwyd Meryl a Frank ar ddod yn Nain a Thaid balch unwaith yn rhagor. Pleser oedd llongyfarch ein Llywydd Anrhydeddus, Phyllis, ar ei derbyn i'r Wisg Las yn Eisteddfod Genedlaethol Cymru ym Môn ym mis Awst.

Diolchir i'r rhai sydd eisoes wedi cyfrannu tuag at Apêl Achub y Plant - derbynir bagiau, gemwaith, ategolion a theis dynion yn ddiolchgar gan Eurgain Haf a bydd Ann Ifans yn fodlon iawn eu derbyn.

'I godi pres at elusen fawr ei sôn

Ein nod yw eu gwerthu yn Eisteddfod Môn.'

Gellir cysylltu hefyd ag Alison Wood, Cangen Achub y Plant Môn ar 07766116114.

Cynhelir Ffair Haf Pwyllgor Anabl Rhanbarth Arfon ar Fehefin 9fed am 10 o'r gloch yng Nghanolfan Ebeneser, Caernarfon, yr elw at 'Heneiddio'n Dda'.

Derbyniwyd llythyr gan Elin Worth ar ran Tim Fformiula I Ysgol Brynrefail yn gofyn yn garedig i ni eu noddi wedi eu llwyddiant ysgubol. Mae'n ofynnol iddynt gasglu oddeutu £15,000 rhyngddynt i gael cystadlu a chynrychioli Cymru yn y rownd derfynol ym Malaysia ym mis Medi. Un o'u prif amcanion fel tîm yw ceisio profi fod gan ferched yr un maint o ddealltwriaeth mewn peirianeg â bechgyn. Felly fel Merched y Wawr, cytunwyd yn unfrydol i'w cefnogi gyda dymuniadau gorau iddynt a diolch am roi Cymru ar y map. Atgoffir pawb o'r elusen 'Wrth dy ochr', ym Mehefin 2017 - hwyl i helpu i godi arian fel bod pawb sy'n tacllo cancr yng Ngogledd Cymru yn cael y gofal gorau posibl.

Cytunwyd hefyd i noddi Osian o Lanberis, disgybl yn Ysgol Brynrefail, gyda 'Prosiect Gwirfoddoli Urdd Gobaith Cymru i Batagonia 2017', gan dymuno'n dda iddo.

Dydd Sadwrn, Mai 13eg, cynhaliwyd Gwyl y Pum Rhanbarth i ddathlu pen-blwydd y Mudiad yn 50 oed. Wedi croeso gan Meirwen Lloyd, Llywydd y Pum Rhanbarth, mwynhawyd eitemau cerddorol clodwiw gan Fand Arian, Côr yr Ysgol ac

unigolion Ysgol Bontnewydd a dymunwyd yn dda iddynt yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd. Cafwyd amser i gael clonc a phaned a chyfle i wario ar Gwmni Manon gyda'i 'Adfywio Hen Drysorau'.

Fel y disgwylid, cafwyd sgwrs hynod ddiddorol gydag ôl ymchwil manwl ar 'Merched a Mentergarwch yng Nghymru' gan Gari Wyn. Bu'r cinio bwffe, fel yr arfer, yn hynod o flasus a braf oedd cael sgwrs gydag aelodau o ganghennau eraill.

'Merched y Môr' oedd gan Bedwyr Rees a difyr oedd ei hanesion am ei nain fel y disgynnai cyfrifoldeb am y teulu ar ei hysgwyddau hi gan bod ei gwr yn gapten llong. Cafwyd orig hynod o fywiog yng nghwmni Patrobas, grwp gwerin offerynnol a lleisiol o chorau Llyn. Bu cyd-ganu Fflat Huw Puw yn goron ar ddiwrnod hynod o amrywiol a difyr dros ben.

Ar Fai 24ain cynhelir Te Prynawn i Ddathlu'r Aur yn y Sefydliad Coffa gyda danteithion arbennig ar ddant pawb am 2 o'r gloch.

Ar Fehefin 22ain bydd cyfle i fynd i'r Parc ger y Bala i weld Paneli'r Dathlu rhwng 2 - 3 o'r gloch. Bydd ceir yn cael eu trefnu i fynd yno. Bydd Merched y Wawr rhanbarth Arfon yn Dathlu'r Aur yng Ngwesty'r Celt, Caernarfon ar Sadwrn, Gorffennaf 8fed, am 12.30 - gyda bwffe poeth ac oer, pwddin a phaned am £20 y pen gydag adloniant i ddilyn.

Cynhelir Cystadlaethau Sioe Llanellwedd 'Cynnyrch Gwaith Llaw, Garddwriaeth' ar Orffennaf 24-27 gyda Seremoni Wobrwyo am 4.30 brynhawn Iau.

Ar Fehefin 13eg byddwn yn ymweld â Storiol ym Mangor i weld yr Amgueddfa a chael pryd o fwyd wedyn. Bydd y bws ym Mhenisarwaun am 5.45 ac yna yn Llanrug am 6.00.

AVW WORKSHOP
Arbenigwyr mewn ceir VW, Audi, Seat, Skoda & Porche
Gwasanaeth Lleol, Cyfeillgar a Phroffesiynol ers 1975.
Which? Trusted trader
01286 673559
Zone 2, Cibyn Ind Est, Caernarfon, LL55 2BD - www.AVWBosch.co.uk

E. W. Pritchard
Trefnwyr Angladdau
CENTRAL GARAGE
LLANBERIS
FFON- (01286) 870202

Clwb Bro Bethel Croesawyd pawb ynghyd yng nghyfarfod mis Mai a rhoddwyd croeso arbennig i Wil Lloyd Davies, Caernarfon. Bu'n sgwrsio yn ddifyr wrth olrhain hanes ei blentyndod yn Melin y Wig, lle roedd y Capel yn ddyllanwad mawr ar bawb y pryd hynny. Soniwyd hefyd am nifer o gymeriadau'r ardal yn cynnwys ei Daid a'i Nain. Aeth ymlaen wedyn i sôn am arferion cefn gwlad fel lladd mochyn, gwneud clocsiau ac yn y blaen, ond yn anffodus mae'r hen arferion wedi diflannu erbyn hyn. Roedd pawb wedi mwynhau'r sgwrs yn fawr iawn ac hefyd y banad ar y diwedd, yng ngofal Gwyneth Williams.

Y trip pen-tymor sydd mis nesaf a hynny ar Fehefin 6. Cysylltwch â Mary Wyn Jones neu Anne Elis am fanylion.

Yr Etholiad Braff cyhoeddi bod y ganran bleidleisiodd yn ward Bethel/Seion yr uchaf yng Ngwynedd, sef 74%. Llongyfarchiadau i Siôn Jones ar gael ei ail-ethol ac i Gareth Griffith am sefyll yn cadarnhau cynnal etholiad. Mae Siôn yn mynnu diolch i bawb a weithiodd ar ei ran yn yr etholiad ac yn edrych ymlaen i bum mlynedd arall o gynrychioli'r ward. Mae am bwysleisio fod ganddo gynlluniau pellach ar gyfer yr ardal gan gynnwys gwella cyfleusterau penodol a cheisio ymateb i'r broblem gynyddol o barcio yn rhai rhannau o'r pentref.

Y Mast Mae'r mast telathrebu bellach wedi ei osod ger y maes pêl-droed. Edrychwn ymlaen at weld gwell signal ffonau symudol o hyn ymlaen. Mae taldra'r mast eisoes wedi denu sylw. Edrychwn ymlaen i rhyw wag bennu enw iddo!

Snwcer Na, nid cyfeiriad at

y clwb lleol sydd yma ond y Bencampwriaeth Byd a gynhaliwyd yn y Crochan yn Sheffield yn ddiweddar. Mae'r gystadleuaeth hon yn cael ei gwyllo gan filiynau bob blwyddyn ac, eto eleni, cafwyd rownd derfynol gystadleuol iawn. Mewn gêm sy'n dibynnu'n llwyr ar gyflymdra, onglau a rheoli'r bêl wen mae'n dipyn o grefft i'r bobl sy'n rheoli'r camerâu i adlewyrchu holl sgiliau cynhenid y gêm. Braff cyhoeddi mai un o'r 'crefftwyr' yma yn anelu'r camerâu eleni oedd Mari, merch Bet a Seiriol, Tan y Cae. Hi oedd y fenyw gyntaf i gyflawni'r orchwyl yma mewn rownd derfynol yn y Crochan. Efallai i chwi ei chlywed yn cael ei holi ar Radio Cymru. Felly, dros y blynyddoedd, rydym wedi cael dyfarnwr o Ddeiniolen ac yn awr gwraig gamera o Fethel.

Cofion at nifer sydd wedi bod i mewn ac allan o ysbytai a chartrefi preswyl yn ddiweddar.

Capel Cysegr Dymuna'r Pwyllgor Gweithgareddau ddiolch i'r rhai o bob oed a ddaeth draw i gael eu swyno gan Howard Hughes yn ddiweddar. Buasai'r pwyllgor yn hoffi clywed am unrhyw syniadau ar gyfer y rhaglen am y tymor nesaf.

Cymdeithas Lenyddol Daeth y gweithgareddau i ben gyda Swper Pen-tymor draw yng Ngwesty Padarn Lake, Llanberis. Diolch i Nora Parry am drefnu'r achlysur. Diolch hefyd i'r ffyddloniaid sydd wedi cadw'r fflam ynghyn gyda'r Gymdeithas yma, sydd ymysg yr hynaf yn y pentref. Cafwyd amrywiaeth dda o siaradwyr a thestunau eleni eto. Edrychwn ymlaen i dymor arall o gymdeithasu y tymor nesaf. Dewch draw.

Wythnos Cristnogol Dymuna'r cydlynnydd lleol, y Parch Marcus Robinson, ddiolch i bawb o'r casglwyr ond yn bennaf i'r cyfranwyr eto eleni am eu cefnogaeth i'r apêl. O weld y lluniau erchyll sy'n ymddangos ar ein sgriniau yn nosweithiol anodd yw peidio ymateb ond, yn flynyddol, ymateb mae trigolion yr ardal yma. Mae yn rhyfeddol, ar gyfnod ble y mae'r niferoedd sy'n mynychu oedfaon yn lleihau, fod y cyfraniadau at Cymorth Cristnogol yn hael iawn yn flynyddol. Mae'r term Cristion yn cael ei adlewyrchu mewn sawl gwisg. Fel pobl 'agos i'w lle' fyddai'r hen bobl yn cyfeirio atynt, a pharhaed y dydd ble y cydnabyddir pobl y pentref arbennig yma yn bobol 'agos i'w lle'.

Llongyfarchiadau Braff nodi bod un o golofnwyr selog yr Eco - a'r Daily Post erbyn hyn - am gael ei anrhydeddu yn yr Eisteddfod Genedlaethol eleni. Bydd Huw Price Hughes, Stad Eryri, yn derbyn y wisg las a'i urddo yn yr Orsedd. Mae'r anrhydedd yn nodi ei gyfraniad gwerthfawr - a hynny trwy' gyfrwng y Gymraeg - mewn nifer o achosion yn ymwneud â chadwraeth yn sgilei gyfnod hir fel ysgrifennydd y Gymdeithas Bysgota leol. Daw ei gyfraniad i'r amlwg yn y drafodaeth hir ynglŷn â phroblemau carthffos yn Llanberis a'r llygru yn llyn Padarn ac, wrth gwrs, y dylanwad echrydus ar niferoedd y torgoch. Edrychwn ymlaen iddo gyhoeddi ei 'enw barddol' yn yr Orsedd. Caiff Huw ei urddo ar ddydd Gwener yr Eisteddfod - diwrnod y Cadeirio.


Cynllunio Yr ydym yn dal i aros am benderfyniad Pwyllgor Cynllunio y Cyngor Sir ynglŷn â'r manau penodol

i'w datblygu ym Methel o dan y Cynllun Datblygu. Yn sicr, mae'r diffyg penderfyniad yma yn llusgo dros amser afresymol bellach.

Taflen Holi Diolch i'r rhai ohonoch sydd wedi ymateb i'r holiadur ynglŷn â'r Eco. Rwyf wedi ceisio dosrannu y taflenni ymysg y cymdeithasau. Os bydd yn bosibl, efallai y gellir eu rhoi tu mewn i'r rhifyn nesaf i'w llenwi. Cais sydd yma gan Bwyllgor yr Eco i gael darlun clir o werthiant, oedran y darllenwyr, nifer y darllenwyr, cost briodol ac hefyd pa erthyglau, ysgrifau neu newyddion sy'n apelio fwyaf i'n darllenwyr selog. Fel y dywedais droeon, ein Papur Ni ydi'r Eco, a'n bwriad yw ymateb i farn a syniadaeth.

Yr Eco i'r Deillion Fel y gwyddoch bu carfan ohonom o Fethel, ers sawl blwyddyn, yn gwneud Tapiau'r Deillion trwy ddarllen yr Eco. Fe'i recordir yng nghanolfan y Deillion ym Mangor. Ers dros flwyddyn bellach ni fu'r gwasanaeth yma ar gael oherwydd i'r sawl oedd yn gyfrifol am y stiwdio ym Mangor gael niwed corfforol difrifol yn dilyn damwain ffordd. Erbyn hyn mae'r swydd ym Mangor wedi ei llenwi ac mae Cymdeithas y Deillion yn awyddus i'r arfer o recordio'r Eco ailgychwyn. Os hoffech wirfoddoli am gyfnod o awr a hanner unwaith y mis a wnewch chi gysylltu â mi. Llauer o ddiolch.

Marchnad Bentref Mae'n fwriad cynnal y farchnad ar y dydd Iau olaf o bob mis rhwng 3pm a 7pm yn y Neuadd Goffa. Bydd cyfle yno i werthu unrhyw gynnyrch a gynhyrchir yn lleol. Am fwy o fanylion cysyllter ag aelodau Pwyllgor y Neuadd neu ddilyn tudalen Marchnad Bethel Market ar Facebook.



FFRAMIA
Parc Padarn Llanberis
(01286) 870922

Gwasanaeth FFRAMIO LLUNIAU

DEWIS EANG O LLUNIAU YN YR ORIEL AC AR Y WEFAN
William Selwyn, Rob Piercy, Keith Bowen, Keith Andrew a mwy

www.ffmpegia.com

BYSUS RHIWLAS

BYSUS BACH A MAWR
ar gael ar gyfer pob math o LOGI PREIFAT
Nosweithiau allan, Partion, Triplau ac ati.
Am wasanaeth personol a thelerau rhesymol-
Ffoniwch (01248) 361044



D. P. OWENS RHIWLAS

Adroddiad Merched y Wawr mis Mai

Cychwynwyd y noson gyda chàn y mudiad cyn symyd ymlaen at newyddion y gangen.

Estynwyd llongyfarchiadau i Rhianwen, wyres Annwylyd am ennill y gystadleuaeth ysgrifennu araith, i Siwan Penant, wyres Lynnwen ar ei llwyddiant yn yr adran gelf a Begw, wyres Eryl am ysgrifennu cerdd.

Da iawn chi ferched ac edrychwn ymlaen i gael eich gweld yn derbyn eich gwobr yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ym Mhenybont ddiwedd y mis 'ma.

A dymuniadau gorau i bawb o blant yr ardal fydd yn teithio i lawr i'r de i gystadlu hefyd.

Efallai yn wir I chi glywed Mari, merch Bet yn cael ei chyfweld ar Radio Cymru am fod y ferch gyntaf I ffilmio'r Pencampwriaeth Snwcr yn

Sheffield yn ddiweddar. Tipyn o gamp yn wir!

Deall fod Mabel a Thomas Alun yn dathlu Priodas Aur cyn hir. Mae 50 mlynedd yn dipyn o gamp, hwyl fawr I chi hefo'r dathlu.

Liz Pen Parc wedi bod yn yr ysbyty ac wedi cael triniaeth ond yn gwella, a Glenys yn ôl hefo ni eto.

Cynhelir Ffair Haf Merched y Wawr Rhanbarth Arfon (Pwyllgor Anabl) ar Fehefin 9fed am 10.00 y bore yng Nghanolfan Ebeneser, Caernarfon.

Croeso cynnes i bawb a bydd yr elw yn mynd at Ganolfan Heneiddio'n Dda, ardal Bontnewyddfa'r cylch.

Cafwyd apel gan Achub y Plant sy'n gofyn am:

Fagiau

Gemwaith

Ategolion

Teis Dynion

I'w gwerthu ar faes yr Eisteddfod ym Môn eleni.

Os oes gennych rai i'w rhoi, cysylltwch â Gwyneth, Anne neu Mary Wyn os gwelwch yn dda.

Roedd yn amser penodi is swyddogion am y flwyddyn I ddod a Gwennan fydd yr is lywydd, Mair Price yr is ysgrifennydd, a Cecile fydd yr is drysorydd.

Diolch am wirfoddoli a phob lwc i chi yn y gwaith.

Bydd y tim bowllo deg yn cystadlu yn ebyn timau y Gogldd ar Fehefin 9fed, Pob lwc i chi yng Nglasfryn.

Trwy gydol y flwyddyn mae'r gwirfoddolwyr wedi bod yn brysur yn pratoi paned ar

ddiwedd y nosweithiau a mawr yw ein diolch i chi i gyd am eich lluniaeth, mae pawb yn gwerthfawrogi paned yn tydi. Diolch yn fawr iawn i chi un ac oll.

Mae'r Trip i dathlu'r Aur bellach wedi ei drefnu a bydd llawer o hwyl ar yr 17eg o Fehefin pan fydd criw ohonom yn cychwyn ar ein taith i ben yr Wyddfa ar y tren ac yna cael te bach yn y Fictoria wedyn!

Mwy o'r hanes yn y rhifyn nesaf, gyda ambell lun dwi'n siwr.

Yn anffodus methodd ein gwraig wadd Carol Llewelyn ddod atom oherwydd gwaeledd ond edrychwn ymlaen i'w gweld rhywdro eto.

Bydd llunio o'r noson hwyliog gawsom yn cymdeithasu ar y wefan

mywbethel.org

Taith Noddedig

Dringo'r Wyddfa

Dydd Sadwrn, Mehefin 24 2017

(i fyny hyd y copa ac i lawr oddi yno ar hyd Llwybr Llanberis)

Rhif elusennol: 1044906

Codi arian tuag at Sefydliad Orthopaedig Ysbyty Robert Jones ac Agnes Hunt, Gobowen, Croesoswallt SY10 7AG

Dechrau'r Daith: Llanberis am 9.30

Yr elw'n mynd at waith hyfforddi ac ymchwil yn yr Ysbyty fyd-enwog hon sy'n dal cyswllt agos-dynn â Chymru. Am fwy o fanylion a chefnogaeth, ffurflenni noddi ayyb

cysylltwch hefo Debra Alexander 01691 404 561



Hywel Williams
Aelod Seneddol
Etholaeth Arfon

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AS mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor

Swyddfa Etholaeth
8 Stryd y Castell Caernarfon LL55 1SE
01286-672076
neu
70 Stryd Fawr Bangor LL57 1NR
01248- 372948
williamshy@parliament.uk



Siân Gwenllian
Aelod Cynulliad
Etholaeth Arfon

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AC mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor

Swyddfa Etholaeth,
70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR
(01248) 372948
Swyddfa Etholaeth,
8 Stryd y Castell, Caernarfon,
LL55 1SE
(01286) 672076
Sian.Gwenllian@cynulliad.cymru

Premier

Y Storfa Premier Llanrug

Sgwar Llanrug
01286-673108

Bwydydd, Diodydd, Papurau Newydd,
Cardiau Cyfarch, Swyddfa Bost

Llun-Sadwrn 6.30am-9pm Sul 8am - 9pm

ECO'r Wyddfa

O'r Cynghorau

Cyngor Cymuned
Llanddeiniolen

Materion o'r cofnodion

Cynllunio: Eglwys Santes Helen

Mae cryn drafodaeth o fewn y pentref ynglŷn a'r angen am y fath adeilad. Dywedwyd fod y ddau gynghorydd cymunedol wedi cael swyddog o'r eglwys yn ymweld a hwy ynglŷn a'r cynllun, ac am y gwrthwynebiad gan y cyngor cymuned i'r cynllun. Mae ymweliad wedi bod ar y safle gan y gynghorydd sirol ynghyd a'r archddiacon, y ficer a swyddog o'r eglwys.

Baw Ci

Derbyniwyd llythyr gan Steffan Jones, Cyngor Gwynedd yn cadarnhau ei fod yn fodlon cyfarfod i drafod y mater ymhellach, ond penderfynwyd nad oedd pwrpas oherwydd nad oedd dim mwy i ddweud nac sydd wedi ei ddweud yn barod. Y broblem fwyaf ar hyn o bryd ydi fod pobl yn cerdded eu cŵn drwy'r mynwentydd, ac ddim yn codi y baw wedyn yno. Penderfynwyd fod y clerc i gysylltu yn gofyn os y cawn newid yr arwyddion ar giatau y mynwentydd i "Ddim Cŵn" yn lle yr arwyddion presennol "cŵn ar denyn".

Gohebiaeth a materion eraill

Ad daliad Llwybrau

Derbyniwyd cadarnhad mai swm o £468.01 sydd wedi ei glustnodi i ni eleni gan y cyngor sir yn gyfraniad torri llwybrau categori 1 a 2. Mae hyn yn swm sylweddol llai eto eleni. Bydd y cyngor cymuned fel yr arfer yn gofalu fod y llwybrau yn cael eu trin fel pob blwyddyn arall.

Cynllunio

Bron Gwynedd - Mae Cynghorwyr Sirol wedi bod ar ymweliad a'r safle, ond nid oes byth benderfyniad wedi ei wneud. Ni fydd penderfyniad tan o bosib mis Mai.

Ceisiadau Cynllunio a Dderbyniwyd:

5 Tai Glyn Afon, Clwt y Bont – Codi estyniad deulawr cefn.

Tir ger Pant Sardis, Dinorwig – Newid defnydd tir amaethyddol i safle trin carthion, gan osod system carthion, gosod offer a pheiriannau a codi wal garreg a ffens gwrth stoc ynghyd a ail wynebu trac mynedfa breifat. .

Castell Pentir - Rhybudd o flaen llaw i godi adeilad amaethyddol, cywiriad i gais C17/0143/18/YA.

St Teilo, Bethel – Newid defnydd o gartref gofalu i un ty annedd.

108 Cae Glas, Rhiwlas – Trosi Modurdy presennol yn ofod byw a chodi porth newydd.

Cyfrifon

Cyflwynodd y clerc restr cyflawn o'r holl daliadau yn ystod y flwyddyn. Cytunwyd yn unfrydol eu bod yn gywir. Mae amserlen archwiliad mewnol ac allannol ynghyd a'r gofynion atodiadau sydd eu hangen eleni wedi dod i law. Bydd y clerc yn paratoi mantolen ariannol ynghyd a chasglu y dogfennau perthnasol fydd eu hangen ar gyfer yr archwiliad mewnol i gyflwyno i'r cyngor fis nesaf.

O gwmpas y bwrdd

Grŵp Cynefin - Derbyniwyd yr holiadur a fydd yn cael ei yrru allan gan Grŵp Cynefin ynglŷn a'r angen am dai. Mae'r cyngor yn croesawu holiadur o'r fath ac wedi rhoi mewnbwn a chaniatad i hyn. Pwysleisiwyd fod yn rhaid i gynghorwyr annog pobol y pwysigrwydd o lenwi a gyrru yr holiaduron yn ôl.

Efail Castell – Mae yna ysbwriel adeiladu a gwastraff tŷ yng ngardd rhif 2. Mae perchnogion wrth ymyl wedi gorfod cael adran difa pla oherwydd llygod ddwywaith, ac mae'r broblem dal yn bodoli. Nid oes unrhyw ymdrech yn cael ei wneud i glirio y gwastraff o'r tŷ cyfagos. Oes camau yn cael eu gwneud ynglŷn a'r sbwriel gan yr adran difa pla ar ôl eu ymweliad.?

Lôn Perthi – Mae angen ail-wynebu y lôn gan fod dipyn o gwyno am dyllau mawr arni. Y clerc i yrru llythyr i adran briffyrdd.

Cysgodfan Bws Brynrefail – Y panel oedd wedi malu dal heb ei drwsio.

Cysgodfan Bws Stryd Fawr Deiniolen – Panel wedi ei falu yno. Y clerc i gysylltu a'r atgyweiriwr.

ECO'r Wyddfa

O'r Cynghorau

Cyngor Cymuned Llanrug
a Chwm y Glo

Cae Chwarae Nant y Glyn

Codwyd y mater o gyflwr wal sydd rhwng cae chwarae Nant y Glyn a'r tai newydd. Nodwyd fod y Cyngor eisoes wedi gwrthod cais gan yr adeiladwr i'w dymchwel ac ar ôl derbyn pris am ei hadnewyddu, wedi penderfynu peidio gwneud dim ar hyn o bryd oherwydd i'r gost yna fod yn uchel.

Fodd bynnag, tynnwyd sylw eto at gyflwr y wal ac ei bod yn druenus fod y wal yn gwaethygu a phenderfynwyd ceisio cael pris arall am y gwaith.

Y Fynwent

Adroddwyd fod Pwyllgor y Fynwent wedi cymeradwyo i'r Cyngor gychwyn claddu llwch yn y llecyn gyferbyn â'r maes parcio gan fod y gofod presennol ar gyfer claddu llwch wedi llenwi.

Penderfynwyd i dderbyn yr adroddiad a nodwyd, yn y tymor hir fe ragdybir mai lle ar gyfer claddedigaethau am tua 5 mlynedd sydd ar ôl yn y fynwent bresennol.

Penderfynwyd derbyn y wybodaeth a cheisio cael cadarnhad o'r sefyllfa parthed y tir o amgylch y fynwent.

Nodwyd hefyd fod y wal yn mhen draw'r fynwent angen sylw a bod slab ar y llawr wrth ymyl y tanc dwr yn gallu achosi i rywun faglu arno. Roedd hefyd angen tap newydd ar y tanc.

Penderfynwyd delio gyda'r materion hyn.

Adroddwyd fod prisiau newydd ar gyfer 2017 / 2018 wedi eu rhoi ar hysbysfwrdd y fynwent.

Nodwyd fod y Cyngor wedi bod yn gyfrifol am dorri gwair mewn rhan o fynwent yr Eglwys ond gan nad oedd y Clerc yn ymwybodol o'r trefniant yma, nid oedd hyn wedi ei gynnwys yn y tendr.

Materion Ariannol

Derbyniwyd adroddiad ar lafar gan y Clerc ar y sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn

CYNGOR CYMUNED LLANRUG A CWM Y GLO

Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, Adran 116 Hysbysiad o Gyfethol

RHODDIR HYSBYSIAD TRWY HYN fod Cyngor Cymuned LLANRUG A CWM Y GLO yn bwriadu Cyfethol PEDWAR aelod i lenwi'r lleoedd gwag sydd ar gael ar gyfer Cynghorwyr yng Nghymuned (Ward) LLANRUG yn dilyn diffyg nifer enwebiadau ar gyfer yr Etholiadau cynhaliwyd ar 4 Mai 2017.

Ceisir datganiadau o ddiddordeb gan aelodau o'r cyhoedd sy'n cyflawni'r meini prawf canlynol ac sydd â diddordeb mewn cynrychioli eu cymuned ar y Cyngor Cymuned dywededig. Rhaid bod yn ddinesydd Prydain, y Gymanwlad, Iwerddon neu'r Undeb Ewropeaidd ac yn 18 oed neu'n hŷn, ac yn cyflawni o leiaf un o'r meini prawf canlynol:

- wedi'ch cofrestru fel etholwr llywodraeth leol ar gyfer yr ardal a enwir uchod; neu
- yn ystod y cyfan o'r 12 mis diwethaf, wedi bod yn berchennog neu'n denant tir neu safle arall yn y gymuned a enwir uchod; neu
- wedi bod â'ch prif neu'ch unig weithle yn ystod y 12 mis diwethaf yn y gymuned a enwir uchod; neu
- rydych wedi byw yn y Gymuned, neu o fewn 4.8 cilometr ohoni yn ystod y cyfan o'r 12 mis diwethaf.¹

Os ydych yn dymuno cael eich ystyried i gael eich cyfethol ar gyfer y sedd(au) gwag, neu'n dymuno cael rhagor o wybodaeth ynghylch rôl Cynghorwyr Cymuned, cysylltwch â'r Swyddog Priodol, Clerc y Cyngor Cymuned ar 07769 112875 neu drwy ebost at clerc@llanrug.cymru erbyn 31 o Fai 2017.

Dyddiedig y 16 diwrnod hwn o Fai 2017

¹ Mae rhai pobl penodol wedi'u hanghymtwysu rhag ymgeisio, yn eu plith swyddogion cyflogedig y Cyngor, unrhyw un sy'n destun gorchmynion cyfyngu methdalwyr a'r rheiny sy'n destun dedfrydau o garchar yn ddiweddar.

Etholiadau Cyngor Gwynedd

Derbyniwyd rhai cwynion na chafodd pob ymgeisydd yn yr etholiadau sylw yn rhifyn Mai o'r "Eco". Ond yn rhifyn Ebrill, rhoddwyd gwahoddiad i bob ymgeisydd anfon datganiad mewn da bryd er mwyn cael ei gynnwys yn rhifyn Mai. Cyhoeddwyd datganiad pob ymgeisydd a wnaeth ymateb i'r gwahoddiad hwnnw.

Dyma'r canlyniadau yn y wardiau sy'n disgyn o fewn dalgylch yr "Eco".

Bethel

Sion W. Jones Llafur 514 73%

Gareth W. Griffiths Plaid Cymru 191 27%

Cwm y Glo

Berwyn P Jones Plaid Cymru 231 68%

Martin A. Jones Llafur 110 32%

Deiniolen

Elfed Williams Plaid Cymru – di-wrthwynebiad

Llanberis

Kevin M. Jones Annibynnol 519 58%

Emlyn C. Baylis Plaid Cymru 371 42%

Llanrug

Charles W. Jones Plaid Cymru – di-wrthwynebiad

Penisarwaun

Elwyn Jones Annibynnol 335 51%

Hefin Williams Plaid Cymru 320 49%

Waunfawr

Edgar W. Owen Plaid Cymru 349 55%

Cain G. Thomas Annibynnol 286 45%

Cyfansoddiad Cyngor Gwynedd o ran pleidiau yw: Plaid Cymru 41, Annibynnol 26, Llais Gwynedd 6, Llafur 1, Democratiaid Rhyddfrydol 1.

Ffurio Cyngor Cymuned newydd yn y fro?

Mae'r Cynghorydd Sion Jones yn galw am ail-edrych ar y posibilrwydd o sefydlu Ward Bethel a Seion fel Cyngor Cymuned ar wahan i weddill Cyngor presennol Llanddeiniolen. Cysylltodd yr "Eco" ag ef, a chyhoeddwn yma ei ddadl dros sefydlu Cyngor newydd i wasanaethu ardal Bethel a Seion.

"Yn ystod 2014/15 mi wnes i ddechrau edrych ar y posibilrwydd o greu Cyngor Cymuned ein hunain yma ym Methel a Seion. Ond yn dilyn cyhoeddiad y cyn-weinidog Leighton Andrews bryd hynny, mi roedd o am weld mwy o gynghorau cymuned yn dod at ei gilydd, bydde hynny wedi golygu ymuno a Llanrug, Waunfawr a Llanberis, neu Pentir a Bangor; os bydde cynlluniau y cyn-weinidog wedi eu gwireddu. Does dim cynllun wedi ei roi ymlaen gan y Llywodraeth nawr, felly mae'n gyfle imi ail edrych ar y sefyllfa gyda Bethel a Seion.

Tydw i ddim yn dadlau bod Cyngor Llanddeiniolen ddim yn cyflawni, ond mae'n gyfrifoldeb arnaf i edrych ar bob opsiwn posib wrth i sefyllfa ariannol y Cyngor a'r Llywodraeth waethygu. Mae ein gwasanaethau wedi eu heffeithio yn barod drwy doriadau i gasgliadau biniau, torri gwair ac ati. Mi wnes i ddadlau llynedd bod angen edrych o ddifri ar lefel trethi Cyngor Llanddeiniolen. Roedd y Cyngor Cymuned yn codi £7 y flwyddyn ar dai, ac nid oedd hynny yn ddigon ar gyfer cyfarch anghenion gwasanaethau i bobl lleol. Erbyn nawr mae'r trethi wedi codi i £11 y flwyddyn, chydig o dan £1 y mis i bob ty yn ardal Llanddeiniolen. Ar gyfartaledd, mae trethi Cynghorau Cymuned Gwynedd oddeutu £25-£30 y flwyddyn: mae'n £55 ym Mangor. Mae Cyngor Llanddeiniolen yn parhau i fod yn un o'r cynghorau isaf o ran trethi cymunedol.

Gyda phob tegwch i Gyngor Llanddeiniolen, mae Bethel a Seion wedi derbyn rhan deg o'r gyllideb, ac mae grwpiau cymunedol yn parhau i gael grantiau gan y Cyngor, ac hefyd dwi'n falch o weld cyfraniad gan y Cyngor i osod goleuadau a meinciau pren ar y cae chwarae. Ond mae rhaid nawr edrych ar ffynhonnellau arian i Fethel a Seion i'r dyfodol, a tydw i ddim yn credu bod Cyngor Llanddeiniolen yn cynnig dyfodol cadarn i'n cymuned ni.

Dwi'n dymuno gweld y gwasanaethau gorau i bobl Bethel a Seion, nid yn unig dros fy nherm i am y pum mlynedd nesaf, ond am yr hanner canrif nesaf. Os bydd Bethel a Seion yn gallu creu Cyngor Cymuned eu hunain, bydd hynny yn golygu bydd y gacen i gyd yn cael ei rhoi i'n cymuned ni. Gallwn gyllido mwy o finiau, gallwn gyllido cysgodfanau bws newydd, gallwn roi hwb i'n grwpiau cymunedol ni unrhyw amser o'r flwyddyn, a byddwn yn gallu trafod Bethel a Seion yn unig bob mis: nunlle arall.

Os ydy pobl Bethel a Seion yn fodlon talu £2 y mis drwy drethi cymunedol, sy'n £24 y flwyddyn, bydde hynny yn creu £10,800 o incwm y flwyddyn i'r gymuned. Gallwn sicrhau dyfodol gwasanaethau a grwpiau cymunedol y gymuned gyda'r arian yma. Wrth gwrs mae yna gostau clerc, sy'n oddeutu £2,000 y flwyddyn i faint yr etholaeth, ac efallai costau yswiriant ryw £400. Ond incwm o £8,000 drosodd i Bethel a Seion yn unig i sicrhau ein dyfodol.

Dwi'n dymuno ail gychwyn y trafodaethau cyn gynted a phosib. Byddaf yn dilyn y broses gyda'r Llywodraeth a Gyngor Gwynedd, a gadael i drigolion Bethel a Seion benderfynu os am weld hyn yn digwydd. Amdani!"

Dyna'r ddadl yn fyr a chryno. Mae croeso i chwi ymateb – drigolion Bethel a Seion neu drigolion gweddill Llanddeiniolen. Beth am drafodaeth adeiladol ar dudalennau'r "Eco" y mis nesaf?

Hywel Williams

Llais cryf a lleot dros etholaeth Arfon

Etholiad Cyffredinol, 8 Mehefin 2017

Plaid Cymru | Party of Wales



Dweud eich dweud!

Mae Panel Cyfryngau Cymru'n chwilio am bobl o bob oed, o bob rhan o Gymru i lenwi holiaduron am raglenni a gwasanaethau teledu.

Mae'r holiaduron yn hawdd a chyflym i'w llenwi a chewch dalebau siopa, arian i elusen neu hyd at £500 y flwyddyn i grŵp cymunedol (e.e. côr, Merched y Wawr neu glwb chwaraeon) am gymryd rhan.

Gallwch ddewis llenwi'r holiaduron am ddim ar-lein neu drwy'r post.

Gweithredir yr ymchwil gan gwmni ymchwil TRP Research ar ran S4C.

Ymunwch ar-lein www.panelcyfryngau.cymru neu drwy ffonio Sian ar 07494 506 962.

RAS GŴN BETWS GARMON.

Tra'n pori drwy raglen Ymryson Cŵn Defaid Betws Garmon fis Awst 2016, deuthum ar draws erthygl fach ddifyr oedd yn sôn am ddyddiau cynnar yr hen Ras Gŵn yn ardal y Betws. Yn yr erthygl, dywedir i'r Ras Gŵn gyntaf gael ei chynnal yn y flwyddyn 1870, a hynny ar dir fferm Bronfedw Uchaf, Rhyd Ddu. Yn 1939 fe'i symudwyd i gaeau'r Trosgol, (Tros-y-gol), Betws Garmon, ond o ganlyniad i'r Ail Ryfel Byd, ni chynhaliwyd y Ras Gŵn wedyn hyd at ddiwedd y Rhyfel ym 1945. Ym mis Medi y flwyddyn honno, a thrwy garedigrwydd Mr Owen.P. Owen y perchennog, ("rhen O.P"), ail gychwynwyd y Ras Gŵn a hynny yn ei chartref newydd ar fferm Ystrad Isaf, Betws Garmon. Ceir ambell stori ddigri a difyr yn yr erthygl, fel yr un yn sôn am rai o'r bugeiliaid yn cyrraedd y Betws ar y tren bach ac yn aros dros nos yn nhafarn y Betws Inn. Sonir hefyd am un cymeriad yn cyrraedd yno ar ei feic, a'r hen gi defaid yn y fased, ac un arall yn powlio tryc hufen iâ yr holl ffordd o Gaernarfon.

Hoffwn innau ychwanegu ychydig o hanes am yr hen Ras Gŵn arbennig yma.

Robat Pritchard, Llwyn Onn, Rhyd-Ddu, a hynny ar ddiwrnod cneifio'r fferm tua'r flwyddyn 1918, glywyd yn sôn am y Ras Gŵn gyntaf i'w chynnal yn yr ardal. Yn ôl Robot Pritchard, roedd gŵr bonheddig, dyn o'r enw Mr Storrie, wedi symud i'r ardal i gadw gwesty'r Snowdon Ranger ger Llyn Cwellyn, Rhyd-Ddu. Ymddiddorai Storrie mewn hyfforddi cŵn, ac yn fuan sylweddolodd y bonwr fod gan y ffermwyr lleol hwythau gŵn talentog wedi iddo eu gweld yn gweithio ymysg y defaid ar y ffriddoedd. Cysylltodd Storrie â'r ffermwyr, ac wedi trafod â hwy, penderfynwyd trefnu ymryson cŵn defaid oedd i'w chynnal ar dir fferm Bronfedw Uchaf, bron ar y terfyn â fferm Llwyn Onn. Hyn fel y cyfeirir yn yr erthygl yn y flwyddyn 1870.

Cynhaliwyd Rasmus Cŵn cynnar Bronfedw Uchaf ar y ffridd uwchben y fferm, lle roedd hen adeilad, ('hen filding cerrig,') yn cael ei ddefnyddio i gadw a gollwng y defaid ar gyfer y cystadleuaethau. Dro arall, gyrrwyd y defaid i fyny o'r gwaelodion, gyda'r ci dan gyfarwyddid a chwiban y bugail, yn eu hel i lawr, ('eu hannos'), i gyfeiriad corlan yn y cae islaw. Gan fod rhai o'r bugeiliaid â gwell cŵn na'i gilydd, penderfynwyd o ran tegwch a chyfarfaledd i greu rhyw fath o 'handicap,' fel bod y rhai â'r cŵn salaf yn y gystadleuaeth yn cael gwell cyfle yn yr byn y cŵn gorau. Wedi trafod, cytunwyd i'r bugeiliaid gael cyflenwad o gerrig yn eu pocedi. Bwriad hyn oedd i'w cynorthwyo drwy ganiatau iddynt daflu rhai o'r cerrig i gyfeiriad ambell ddafad styfnig a phen galed fyddai'n sefyll ei thir neu yn gwahanu oddiwrth y defaid eraill. Gosodwyd amodau ynglŷn â'r 'handicap' fel bod y bugeiliaid â'r cŵn salaf i gael hyd at ddwsin o gerrig yn eu pocedi, tra fod y rhai â'r cŵn ychydig gwell i gael oddeutu saith neu wyth o gerrig, ond i'r rhai â'r cŵn gorau efallai ond tair neu bedair o gerrig. Ar ddiwedd pob rhediad byddai'r beirniaid yn cyfri nifer y cerrig oedd ar ôl ym mhob poced gan roi marciau ychwanegol i'r rhai oedd a'r nifer fwyaf ohonynt yn weddill. Er engrafft, os byddai un â dwsin o gerrig ar y dechrau ond wedi defnyddio tair neu bedair o gerrig, neu efallai yr un a saith neu wyth wedi defnyddio ond dwy neu dair, byddai'r cerrig oedd ar ôl yn y boced yn mynd yn farciau ychwanegol fel pwyntiau bonws at ei berfformiad ef a'r ci yn y gystadleuaeth. Mae'n wir dweud i ambell fugail blin a byr ei amynedd dargedu rhai o'r defaid yn fwriadol a'u taro'n frwnt a chaled, rhywbeth fuasai'r ymgyrchwyr creulondeb i anifeiliaid y dyddiau yma yn

siwr o ymateb yn chwyrn iddo. Hen gymeriad annwyl Robot Gruffydd, Ty'n Ronnen, Waunfawr glywyd un tro ar ddiwrnod hel mynydd yn cwyno'n arw am hen gi hollol wirion a diwrando oedd yn gwneud dim ond cyfarth a herian y defaid. 'Mi fasa'n well i mi lond pocad o gerrig o beth cythral, na rhyw hen beth gin wirionad a hwn!'

Braint i ni hogia bach Waunfawr yn ystod y chwedegau oedd cael bod yn rhan o weithgareddau'r Ras Gŵn a chael y 'job bwysig' o ollwng y defaid o'r gorlan ar gyfer y cystadleuaethau. Chweugain am bnawn Gwener a phunt am ddydd Sadwrn, dyna oedd y tâl mawr yr adeg honno, yn ogystal a phaned lugoer, brechdan gorn biff a theisen gri mewn boc carbod o'r garafan fwyd. Pan welid fflag wen yn chwifio yng ngwaelod y cae, byddai hyn yn arwydd fod y bugail a'r ci yn barod wrth y polyn ac i ni ollwng tair o'r defaid i'r cae. Gan fod y gorlan wedi ei lleoli yn y cae gyferbyn ar lethr y mynydd, rhaid oedd gwthio'r defaid drwy fwllch yn y clawdd, 'twll defaid' fel y gelwid, a 'lwc owt' os fyddai'r fflag yn chwifio a ninnau heb ei gweld. Dyma pryd fyddai llais cryf mileinig i'w glywed yn atseinio'n uchel drwy gorn siarad yn gweiddi, 'DEFAID!' oedd yn gwneud i ni neidio ac ufuddhau y munud hwnnw i'r comand militaraid.

Un broblem fawr yr adeg honno oedd 'hogia drwg' y Waun yn dod i wneud eu drygau. Sleifio'n ddistaw drwy'r coed o gyfeiriad chwarel Garreg Fawr fyddai'r tacla yma ac agor giat y gorlan a hel y defaid drwy'r brwyn i gyfeiriad y mynydd. Dro arall byddent wedi cuddio'n y rhedyn a chwibanu cyfarwyddiadau croes i'r bugail gan ddrysu'r ci a'i yrru i bob cyfeiriad

Yn ogystal a Robot Pritchard, roedd meibion Llwyn Onn hefyd a diddordeb mawr yn y Ras Gŵn. Roedd Bob a Gwilym Pritchard yn fynychwyr a chystadleuwyr brwd a chyson yng nghaeau'r Ystrad. Cofiaf weld Bob y brawd hynaf ar bwys ei ffon yn erbyn trwmbal hen Austin 16, gyda wats boced yn ei law yn amseru ac astudio'r rhediadau'n eiddgar. Stori ddigri yw honno am Gwilym y brawd ieuengaf oedd un tro yn cael trafferth garw tra'n ceisio corlanu hen ddafad ben galed a phenderfynol oedd yn mynu rhedeg i bob cyfeiriad o flaen y ci. Gyda'r cloc yn tician a morthwyl yr amserwr yn taro'r bwrdd i ddatgan mai ond munud o amser oedd ar ôl, hwy i bawb oedd gweld yr hen frawd ar ei ddau benglin yn y gorlan yn gweiddi 'MÉ-MÉ!' wrth geisio denu'r wlanog ddryslud tuag ato ef a'r ddwy arall oedd eisioes yn y gorlan. 'Be mae o'n neud dudwch?' ebe un hen lymbar gwawdlyd oedd yn gwyllo, 'deud 'i badar ta bé?' Gyda chwythiad y bib, (pib fel un gan blismon erstalwm), yn dod â'r rownd i'w therfyn, clywyd Gwilym druan yn cwyno a thwt twtiau rhywbeth fel, "fedrwn i yn fy myw ga'l trefn ar yr hen gnawas!" Ychydig iawn o Saesneg siaradai'r brodyr. Cofiaf Gwilym Pritchard yn galw heibio ein tŷ ni ar ei ffordd adref o Gaernarfon un prynhawn Sadwrn cyn y Nadolig. Roedd yr hen frawd wedi rhyfeddu o weld y goeden Nadolig hardd ar y Maes, a meddai wrth mam, "Ew, coedan 'dri' grand gynddeiriog tua'r maes 'na chi Meri, ewcs ia, ag yn liwia trimings drosti chi, werth i'w gweld wir!"

Er fod amgylchiadau mor anodd y dyddiau yma, braf yw gweld fod yr hen Ras Gŵn yn dal ei thir ar gaeau'r Ystrad. I'r criw o wirfoddolwyr gweithgar a brwdfrydig sy'n rhoi eu holl egni ac amser i'w chadw ar dir byw mae'r diolch am hynny.

Gwilym Morris Jones.

POSH PAWS

TACLUSO CŴN
 Busnes Newydd Lleol
PRYNHAWNIAU neu NOSWEITHIAU 4-10
DYDD SUL 8YB-4YP
 Gwasanaeth Casglu a Danfon
 Ty'n Llan Uchaf, Llanddeiniolen
 (01248) 671382 • 07935324193
 ebost- juliaposhpaws@btinternet.com

SAMARIAID
 Mae
Llinell Gymraeg
0300 123 3011
 ar gael bob nos
 rhwng
 7.00pm ac 11.00pm

HUW OWEN
PLASTRWR ADEILADWR LLEOL
 22 BLWYDDYN O BROFIAD
 Ffôn- 01286 677668
 Symudol- 07940023159
 Gladwyn Station Rd.
 LLANRUG, Caernarfon
 LL55 4AG
 Ebost- lisa.huw@btinternet.com

WAVELL'S
 Bryn Ac Angela Williams
London House LLANRUG
PEN CIGYDDION Y FRO
 YR WŶN LLEOL MWYAF BLASUS
 SELSIG CARTRE
 CIGOEDD PAROD I'W BWYTA
 ARCHEBION AR GYFER Y RHEWGIST
MYNWCH Y GORAU DEWCH ATOM NI!!
(01286) 673574



Ar ben arall i'r lein

Tydi mis yn gwneud gwahaniaeth yn tydi - tipyn o gyhuddiadau yn rhifyn Mai fod y tywydd yn trio ei orau i gadw rhywun yn y tŷ oherwydd y gwynt oer, ond mae fel cwpan yn y dŵr gyda'r gallu i droi dros nos. A dyna mewn gwirionedd ddigwyddodd. Mae'r hin wedi cynhesu gyda'r canlyniad fod brithyll y llynnoedd wedi deffro, mae pysgota arbennig wedi bod ar y Cwellyn a Nantlle. Cefais e-bost gan un ymwelwr oedd wedi bod allan ar Cwellyn drwy docyn dyddiol cwch yn cyhoeddi cael dros ugain o frithyll, 'sgotwr cydwybodol gan fod y cwbl wedi eu rhyddhau. Dyma fyddaf innau yn ei wneud y rhan amlaf, ond rwy'n hoffi cadw rhyw ychydig i'r badell yn achlysurol! Does dim byd mwy blasus, yn enwedig pan mae eu cig yn torri'n goch. Brithyll Padarn di'r bois gorau am hyn.

Tra dwi yn sôn am Padarn dydw i byth wedi tynnu fy hun at i gilydd i gael y cwch allan, gan mai'r newyddion dwi'n dderbyn ydi fod ansawdd 'sgota'r llyn wedi newid yn llwyr gyda mwy o ddraenogiad yn dod i'r rhwyd na'r brithyll naturiol. Ni fydd llawer o newid ar hyn mae gennyf ofn hyd nes bydd cynnwys yr ocsigen toddedig yng ngwaelodion y llyn yn dechrau gwella ymhen amser, a faint o amser - pwy a wŷr, ond mae un peth yn sicr, mae ansawdd y dŵr yn gwella nid yn unig ar Padarn ond hefyd ar yr afon - haul ar fryn o'r diwedd.

Beth am y draenogiad 'ma ta? I mi, chwyn ydynt a ddim i fod yma o gwbl, ond o bosib un hen ffasiwn ydw i oherwydd dwi'n dal i gofio sut oedd 'sgota'r brithyll a thorgoch. Nid y 'sgota'n unig cofiwch ond y cyfeillgarwch oedd, ac yn dal i fod, ymysg yr ychydig sydd ar ôl erbyn heddiw. Y straeon a'r dywediadau sydd yn dal mor fyw yn fy nghof hyd heddiw a, rhag i'r pethau 'ma fynd yn angof, os oes hen lun neu nodiadau cofiwch eu cadw neu gwell byth anfon copi yma. Mae fy niolchiadau yn fawr i'r nifer sydd yn barod wedi anfon lluniau a chofnodion pysgodfaol eu teuluoedd, ond mae mwy o gwmpas y lle ma a pheidiwch, da chi, a gadael iddynt fynd yn angof. Dwi ond yn gobeithio y bydd yn bosib eu cyhoeddi rhyw dro - os bydd rhyw argraffydd yn ddigon dewr i ddod ymlaen. 'Rydym fel Cymdeithas wedi gwneud rhai ymholiadau i edrych a oes cymorth i'w gael at y gwaith yma, a wyddoch chi be di'r ateb 'di bod - "gan mai materion o ddiddordeb lleol ydynt, nid yw'n deilwng am gymorth."

Wedi crwydro eto! cyfeirio oeddwn i at Ddraenogiad Padarn, ia y pysgod dim y rhai pigog sydd yn ein gerddi, rhag i rai ddechrau fy mhardduo am fy mod yn argymhell bwyta rheini! Ond yn ôl at y pysgod, mae tipyn o ganmol iddynt fel prydyn o fwyd, arbennig meddai rhai cogyddion. Wedi ei ffrio'n ysgafn, maent yn ffefryn mawr drwy Ffrainc. Wel, yn ystod Ionawr eleni 'roeddwn yn aros mewn tref fechan, Morzine yn yr Alpau, a be oedd ar y fwydlen un noson oedd 'Perch' sef 'rhen ddraneogun' wedi ei ffrio. Dyna oedd y dewis, a be ddaeth oedd rhyw hanner dwsin o ffledi rhyw bedair modfedd o hyd - fy nyfarniad o'r pryd, dim byd yn arbennig, rhywbeth tebyg i fwyta

papur yr Eco, er fy mod heb drio gwneud hynny cofiwch a na, ni fyddaf yn ei ddewis eto - glynu at y brithyll a'r torgoch, ia cofiwch torgoch o Cwellyn. Ni fuaswn yn meddwl cadw unrhyw un o'r torgochiaid mae Cyfoeth Naturiol Cymru, yn ei caredigrwydd, wedi eu stocio i Padarn! Ond efallai y bydd yn rhaid cadw un neu ddau i weld sut mae torgoch wedi ei stocio yn blasu. Mi adawaf i chi wybod.

Fel y gwyddoch dwi'n hoff iawn o fwyta a rhannu be dwi'n ddal, hyn yn golygu eog a brithyll môr. Ond fel 'rwyf wedi cyfeirio o'r blaen mae Cyfoeth Naturiol Cymru i'w weld yn benderfynol o ddod â hyn i ben 'Dal a dychwelyd' yw be maent yn bregethu oherwydd cyflwr bregus y stoc drwy Gymru. Y pechod mawr yw nad ydynt i'w weld yn rhoi ei ysgwyddau i ddatrys y problemau sy'n gyfrifol am hyn. Mae cryn fwgwth eu bod am gyflwyno deddfau fydd yn anghyfreithloni mynd ag unrhyw eog neu frithyll môr gartref am brydyn. Dim ond 'sgotwrs anghyfrifol sy'n gwneud hyn 'medda nhw. Dwi'n eithriadol o anghyfrifol felly - ond un eog a rhyw hanner dwsin o frithyll môr dwi'n gobeithio ei gael mewn tymor o bysgota caled ar hyd a lled y gogledd ac weithiau i'r Alban ag Iwerddon. Os byddaf mor ffodus â chael mwy nag un yna mae'r cwbl yn cael eu rhyddid.

Daeth cyhoeddiad yn ystod 2016 gan CNC y buasai rheolau mewn lle erbyn dechrau tymor 2017, ond wedi brathu gormod mae'n siŵr, gan i gyhoeddiad ddod dechrau'r flwyddyn mai ymgynghoriad fuasai'n cymryd lle at y Pasg, ni ddaeth hyn i rym. Y diweddaraf yw fod yr ymgynghoriad wedi ei ohirio eto oherwydd yr etholiad cyffredinol, ond eu bod yn benderfynol o weld rhywbeth ar waith erbyn tymor 2018.

'Rydym fel Cymdeithas wedi cymryd rhan mewn nifer o'r ymgynghoriadau 'ma sy'n cael eu rhoi allan gan ein goruchwylwyr pysgodfaol, a wyddoch chi be, does ond eu cynigion hwy yn cael eu gweithredu bob tro. Fy hun nid wyf yn gweld unrhyw bwrpas mewn cymryd rhan mewn unrhyw ymgynghoriad sy'n dod o sefydliadau Caerdydd gan, dros y blynyddoedd, does neb wedi gwranddo.

Colled arall i Gymru fydd yn y misoedd nesaf gweld Cymdeithas Eog a Brithyll Cymru yn trosglwyddo eu cyfrifoldebau i gynrychioli pysgodfeydd mewndirol Cymru. Dyma'r rhan o'r gymdeithas a oedd yn cael ei rhedeg mor effeithiol gan y diweddar Moc Morgan a'i gymdeithion. Bydd y gynrychiolaeth yn awr dan ofal yr Angling Trust sydd wedi ei lleoli yn Swydd Hwlfordd. Mae Fish Legal, a wnaeth waith mor ardderchog ar ein rhan gyda llygredd Llyn Padarn, yn rhan o'r sefydliad yma. 'Rydym felly yn sicr o gynrychiolaeth o'r radd flaenaf. Yn dilyn hyn, unig gyfrifoldeb CEB Cymru fydd gofalu am y timau a trefnu cystadlaethau pysgota pluen rhyngwladol.

A dyna ni unwaith eto.

Huw Price Hughes.

Un funud fach ...

YMWYAFRIF

Mae pobl yn fy nychryn. Nid pawb wrth reswm. Dwi ddim mor ofnus â hynny. Mae pobl yn medru bod yn ffeind ac yn dda. Y dorf sy'n fy nychryn. Nid y dorf ei hun chwaith rhag i chi feddwl fod torf theatr neu dorf cae pêl droed yn codi ofn arnaf. Barn y dorf sy'n fy nychryn, ac yn arbennig y canfyddiad fod rhaid derbyn mai llais y dorf sydd bob amser yn cario'r dydd, a bod rhaid i'r lleiafrif bob amser ildio i'r mwyafrif.

Ar wahân i'w deulu ei hun, roedd pawb yn credu fod Noa yn wirion ac yn mynnu na ddeuai'r dilyw. Fyddai dim sôn am Arch Noa petai o wedi gwrando ar y dorf. Pan chwalodd Gideon allor Baal roedd bron pawb yn Offra yn credu ei fod ar fai ac yn haeddu cael ei ladd am hynny. Ac oni bai am ymyrraeth ei dad Joas byddent wedi ei ladd. Ar Fynydd Carmel, gellid tybio nad oedd obaith i Elias gan fod 850 o broffwydi'n ymryson ag ef. Ond yr un (gyda Duw o'i blaid wrth gwrs) a orfu. Ym Mabilon, roedd pawb yn ufuddhau i'r gorchymyn i addoli'r ddelw aur; pawb ond Daniel a'i dri chyfaill. A'r dorf waethaf oll yw'r un y darllenwn amdani yn y Testament Newydd yn udo am waed yr Arglwydd Iesu ac yn mynnu bod Pilat yn ei anfon i'w groeshoelio.

Dysgodd Iesu yn y Bregeth ar y Mynydd nad y dorf na barn y dorf sydd i reoli ei bobl. Soniodd am borth llydan a ffordd eang y mae'r 'llawer' yn mynd trwyddo ac yn ei cherdded, i ddistryw. Ond heriodd ei ddisgyblion i beidio â dilyn y dorf ond yn hytrach i fynd trwy borth cyfyng a cherdded ffordd gul sy'n arwain i fywyd. Un o'r pethau cyntaf i'w ddyngu am y bywyd Cristnogol yw'r rheidrwydd i gael ein rheoli nid gan yr hyn a ddywed y mwyafrif wrthym ond gan yr hyn a ddywed Duw wrthym yn ei Air ac yn ei Fab Iesu Grist.

Nid awgrymu yr ydwi i fod y dorf bob amser yn anghywir. Dim ond ffwl fyddai'n dadlau mai'r lleiafrif sydd bob amser yn gywir. Ond ffwl hefyd sy'n mynnu mai barn y mwyafrif sydd gywir bob amser ac mai ar lais y mwyafrif y dylid gwrando ar bob achlysur. Mae'r Cristion yn deall hynny'n iawn. Os yw'r mwyafrif yn mynnu nad oes Duw ac nad oes unrhyw werth yng Nghrist, mae'r Cristion yn dal i gredu ac yn dal i arddel yr Efengyl.

Ac ydi, mae'r bobl yn dal i'm dychryn. Mae arnaf ofn mai un peth a glywn fwy a mwy'r blynyddoedd nesaf yw'r gri am adfer y gosb eithaf yng ngwledydd Prydain. Yn ôl Arolwg YouGov a wnaed yn 2014, roedd 45% o'r bobl a holwyd o blaid adfer y gosb eithaf a 39% yn erbyn, gyda'r gweddill heb fod o blaid nac yn erbyn. Ac er bod mwy o blaid nac yn erbyn, y peth calonogol oedd bod ers canol 80au'r ganrif ddiwethaf lai a llai o bobl bob blwyddyn o blaid adfer y gosb eithaf.

Ond yr hyn sy'n fy nychryn yw'r hyn a ddangoswyd gan Arolwg a wnaed y llynedd wedi'r Refferendwm bondigrybyll. Dangosodd hwnnw fod 36% o'r bobl a holwyd o blaid adfer y gosb eithaf pan fydd Prydain wedi gadael yr Undeb Ewropeaidd. Oni ddylai hynny godi calon dyn? Wedi'r cwbl, mae 36% yn sylweddol is na 45%. Ydi wrth gwrs, ond yr hyn sy'n fy nychryn yw'r ffaith fod 53% o'r bobl sydd o blaid Brexit o blaid y gosb eithaf. (Dim ond 20% o'r bobl oedd yn erbyn Brexit sydd o blaid y gosb eithaf.) A chan mai barn y mwyafrif sy'n cyfrif, a'r mwyafrif hwnnw ar hyn o bryd yn fwyafrif y Brexitiaid llafar, onid oes lle i ofni?

JOHN PRITCHARD

Cynnal a Chadw Gerddi ac Adeiladau

 TORRI GWAIR/ GWRYCHOEDD/ COED
PLANNU • CHWYNNU • PEINTIO • GWAITH COED
PLASTRO • GOSOD CEGINAU *AMCANGYFRIF AM DDIM*

Sion Roberts ▶ **07759415753**
3 CARADOG PLACE • DEINIOLEN • LL55 3H5

LLANBERIS Eifion Roberts,
Sŵn-y-Gwynt, Ffôn: 870740 

Oedfaon Capel Coch

Mai 28ain: Oedfa Deulu 10.30yb

Mehefin 4ydd: Parchedig Richard O. Jones 10yb a 5yh

11eg: Gweinidog 10yb, Oedfa MOLI 5yh

18fed: Parch Ruben Roberts 10yb, DIM OEDFA 5yh

25ain: Oedfa Deulu 10.30yb

Diolch Dymuna Mrs Phyllis Jones, 60 Dôl Elidir, ddiolch i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd arbennig yn ddiweddar.

Diolch Gair bach i ddiolch i holl etholwyr Llanberis a Nant Peris am ymddiried a rhoi eu cefnogaeth i mi yn yr Etholiad, a diolch hefyd i'r Cyn-gynghorydd, Trefor O. Edwards, am ei waith dros y deunaw mlynedd diwethaf. Diolch yn fawr iawn i bawb, Kevin Morris Jones.

Côr Meibion Dyffryn Peris Yn ddiweddar bu'r Côr yn canu mewn dau achlysur tra gwahanol i'w gilydd, un yn drist a'r llall yn llawen. Yr achlysur trist oedd cynhebrwng ein cyn aelod, Robert Davies (Bob Llanrwst), yn Eglwys Santes Fair, Betws y Coed ar Fai'r 8fed.

Priodas Iwan, mab un o'n haelodau presennol, Gareth Hughes, yn Eglwys Santes Fair Llanfairfechan, ar y 13eg o Fai, oedd yr achlysur hwyliog.

Yn ddiweddar mae'r Côr wedi croesawu cyfeilyddes newydd, sef Bethan Holdings o Lanberis, i'w plith. Mae ein diolch i'n cyn gyfeilyddes, Ellie Lighton, am ei gwasanaeth dros y ddwy flynedd ddiwethaf.

Diolch: Diolch yn fawr iawn i Trefor Edwards am ei wasanaeth i gymuned Llanberis a Nant Peris fel Cynghorydd Annibynnol dros Ward Llanberis ar Gyngor Gwynedd ers iddo gael ei ethol gyntaf yn 1999. Enillodd yr etholiad hwnnw a'r un a'i dilynodd yn 2004. Wedi hynny, cafodd ei ethol yn ddi-wrthwynebiad yn 2008 a 2012, ac mae'n sicr fod hynny'n arwydd o barch yr ardal at ei wasanaeth dros y blynyddoedd. Penderfynodd beidio â sefyll yn yr etholiad eleni, ac wrth ddiolch iddo am y cyfan a wnaeth dros yr etholaeth a'i phobl gydol y deunaw mlynedd o wasanaeth diffuant a diflino dymunwn y gorau iddo i'r dyfodol.

EGLWYS GADEIRIOL BANGOR

Nos Wener, Mehefin 16eg am 7 o'r gloch

DATHLU PANTYCELYN

(1717 – 1791)

yng nghwmni

Y Parchedig Huw John Hughes

Cenir rhai o Emynau Pantycelyn yn ystod y noson

Organydd: James Griffiths

Mynediad am ddim



North Wales
SIGNS
Gogledd Cymru

Uned Unit | **A9** | Cibyn Ind Estate | northwalesigns.com
grid76.co.uk | 07766956673

Newyddion Ysgol Dolbadarn.



Caerdydd

Bu disgyblion Blwyddyn 5+6 yn ddigon ffodus i gael ymweld â Chaerdydd yn ddiweddar gan flasu gwibdiath o'r Big Pit, Bae Caerdydd, San Ffagan a hefyd cyfle i brofi yr hyn sydd yn digwydd yn y Senedd. Diolch i Siân Gwennlian am eu croesawu ar y diwrnod. Yr oedd sawl un yn flinedig iawn yn dychwelyd i Lanberis ond yn sicr wedi cael profiadau gwerthfawr iawn.




Dringo

Llongyfrachiadau i garfan o ddisgyblion yr ysgol sydd yn ddringwyr brwd yng nghanolfan Beacon. Bydd Mia Eade yn parhau i gystadlu yn y cam nesaf yn y dyfodol gan iddi ddod yn gyntaf yn y gystadleuaeth yn ddiweddar- pob lwc iddi.

Ffarwelio

Bydd Miss Ceri Ffion Davies yn gadael yr ysgol ac yn cychwyn yn Ysgol Treferythyr Criccieth ar ôl y Pasg- diolchwn iddi am ei gwaith caled gyda disgyblion Blwyddyn 3.



Chwedlau

Fel rhan o thema 'Chwedlau' bu disgyblion yr Adran Iau ar daith i ymweld â Chestyll Llywelyn Fawr sef Castell Dolwyddelan a Chastell Dolbadarn wth gwrs. Mwynhaodd y disgyblion y diwrnod y fawr iawn a chafwyd cwmni Mr Gareth Roberts am y dydd. Cafodd y disgyblion fodd i fyw yn gwrando arno yn adrodd chwedlau lleol megis rheiny am y bleiddiaid a chewri o gwmpas y fro . Diolch o galon iddi am ei gymorth.



Ysgol Eco

Cafwyd cyflwyniad arbennig i rieni Blwyddyn 4 ar y gwaith Ysgol Creadigol yn ddiweddar. Yr oedd Anna Williams a Manon Awst, a fu'n rhan o'r cynllun yno hefyd i gyflwyno yr hyn a wnaethpwyd. Cafodd y rhieni daith o amgylch yr ardal 'gwyrdd' newydd ar fuarth yr Adran Iau a chafwyd trafodaethau am y camau nesaf wrth ddatblygu'r ardd. Mae'r Grwp Eco wedi dosbarthu llythyrau o amgylch y pentref yn sôn am eu syniadau wrth ddatblygu'r ardd a hoffai'r ysgol ddiolch i Pete's Eats a Spar Llanberis am eu rhodd caredig. Diolchwn hefyd i garfan brwdfrydig o rieni sydd yn gwirfoddoli eu hamser i gynorthywo yn yr ardd.

HYFFORDDI CRICED



Ydy, mae'r tymor criced wedi cyrraedd unwaith eto. Hyd yn hyn mae'r tywydd wedi caniatáu i'r gemau lleol ar benwythnos gael eu chwarae. Mae'n tim 'lleol' Caernarfon yn dechrau eu hail dymor dros yr Aber ac yn edrych i symud allan o Ail Adran y Gorllewin yng Nghyngair y Gogledd. Mae ambell i chwaraewr profiadol wedi ymuno, a dan arweiniad Iwan Roberts a hyfforddiant Euryn Owen byddent yn ffyddiog. Yn barod yn y prif adran mae rhai timau yn dechrau dangos eu dannedd gyda llawer yn darogan y bydd y frwydr am y bencampwriaeth rhwng Porthaethwy, Bangor, Llandudno a Dinbych. Amser a ddengys. Os oes gennych ddiddordeb mewn gwyllo galwch draw i Fangor neu Borthaethwy. Cewch eich synnu gyda safon y chwarae.

Mae cryn bwyslais erbyn hyn ar hyfforddiant yn y clybiau. Dyma'r unig ffordd i gynnal datblygiad. Y gamp wedyn yw bwydo'r chwaraewyr ifanc yma i mewn i'r tim oedolion. Ar hyn o bryd mae ail a thrydydd tim Bangor yn cynnwys 5 o chwaraewyr dan 15 yn rheolaidd. Yr elfen bwysig arall yw bod oedolion cyfrifol o'u cwmpas yn barod i gefnogi, canmol a treiddio'r bechgyn – a merched yma – yn elfennau pwysig y gem. Mae'n bwysig hefyd bod yr ieuencid yma yn chwarae yn erbyn eu cyfoedion, ac yma yn rhanbarth Eryri ar wahan I'r timau rhanbarthol sy'n chwarae mewn cystadleuaeth genedlaethol mae cynghrheiriau Eryri dan 11, dan 13 a dan 15.

Eleni eto mae Bangor wedi denu Francois Moestart o Dde Affrica yn ol fel chwaraewr tramor. Bowliwr cyflym, a batiwr llaw chwith yw Francois ac eisioes mae wedi sgorio 100 a chymryd 5 wiced mewn batiad yn ystod gemau cynghreiriol. I gael visa rhaid iddo ddal trwydded hyfforddi. Yn wir, yn ystod ein gaeaf ni mae Francois wedi mynd am y pedwar tymor diwethaf I dalaith Otago yn Seland Newydd I hyfforddi a chwarae. Fel rhan o'I gytundeb yma mae yn mynd o gwmpas ysgolion cynradd yr ardal i hyfforddi.

Daw i Ysgol Bethel yn ystod 'Amser Aur' ar bnawn Gwener ble mae'r disgyblion yn dewis pa un o'r gwahanol weithgareddau – gan gynnwys criced a garddio – sy'n apelio atynt. Mae Francois yn boblogaidd gyda'r disgyblion a hwythau hefyd mewn dysgu am Dde'r Affrig. Hefyd, mae ambell blentyn yn pigo i fyny ambell air o Afrikaans. Bwriad y sesiynau hyn yw creu brwdfrydedd a mwynhad a cymell y plant i ddod draw I'r clybiau lleol am fwy o feithrin. Fel rydw I'n sgwennu'r geiriau yma, mae hi'n dechrau bwrw glaw. Ydy, mae'r tymor criced wedi cyrraedd!

DIM TLWS ELENI

Ni chefais ymateb i'r apel y mis diwethaf, ac felly am y tro cyntaf ers bron i 40 mlynedd ni chynhelir cystadleuaeth Tlws yr Eco eleni. Trueni, ond fel yna mae hi. Diolchaf felly i'r ffyddloniaid a gefnogodd y nosweithiau ar hyd y bedlan. Cafwyd sawl noson gofiadwy.

Rwyl clywed ambell si na fydd rhai pentrefi yn ffurfio timau ieuencid y tymor nesaf. Yn amlwg nid oes sicrwydd bod niferoedd ar gael bob tymor, ond mae'n ymddangos fod tueddiad i ambell i chwaraewr o du fewn i'n hardal – a thu hwnt – gael eu denu i nifer fach o glybiau. Hel tim, fel petai.

Os bydd y tueddiad yma yn cynyddu, a fydd pentrefwyr yn fodlon cefnogi'n ariannol 'eu' timau a'u haelodau yn frith o chwaraewyr tu hwnt I'r pentrefi?

Penllanw rasio mynydd mis Mai oedd y ras leol o Lanberis i gopa Moel Eilio ac ymlaen ar hyd y grib i gopa Moel Cynghorion cyn dychwelyd i'r pentref. A daeth tua 70 o redwyr i herio gwynt cryf iawn oedd yn eu wynebu ar y ddringfa gyntaf, ond yn rhywfaint o gymorth ar y ddringfa olaf! Trefnwyd y ras fel arfer gan Jayne Lloyd o Bontrug, gyda'r elw'n mynd tuag at Gronfa Cancr Tenovus. Dau aelod o Glwb Rhedwyr Eryri ddaeth yn gyntaf a thrydydd (er nad yn lleol), gyda Chymro arall a deithiodd yma'r holl ffordd o Glwb Serpentine, Llundain yn eu gwahanu. Calonogol iawn oedd gweld cymaint o ferched yn cymryd rhan, a'r ras yn cael ei hennill o drwch blewyn gan Sian Williams, Clwb Hebog. Maggie Oliver, Dinorwig, oedd yr unig enillydd lleol yn yr adran i ferched dros 60 oed.

Mae cyfres rasys Nos Fawrth yn tynnu tua'i therfyn, ond y cystadlu yn parhau'n frwd iawn. A'r "Eco" ar fynd i'r wasg, doedd y canlyniadau diwethaf ddim i law, ond y gobaith yw y bydd nifer o redwyr lleol ymhlith yr enillwyr.

Enillydd lleol yn Ras Pedwar Copa'r Fron (Mynydd Mawr) oedd Mathew Roberts, Llanberis, a daeth Jenny Heming, Llanberis yn drydedd ferch dros 40 oed.

Bu dau redwr lleol yn llwyddiannus hefyd yn Ras Llwybrau Coed y Brenin, gyda Huw Owen, Llanrug yn ail dros 40 oed ac Arwel Lewis, Bethel yn gyntaf dros 50 oed.

Fel arfer, teithiodd nifer o redwyr lleol i Lundain i gystadlu yn y Farathon. Llongyfarchiadau i'r chwirydd Kate a Laura Beard, Llanrug, ac Emyr Gibson, Deiniolen gynt. Ond seren y diwrnod yn ddiau oedd Rob Samuel, Llanberis. Ac yntau wedi ennill Marathon Eryri dair blynedd yn olynol, roedd yn gobeithio am amser da iawn, ac ni chafodd ei siomi. Mae record y marathon i aelodau Clwb Rhedwyr Eryri yn sefyll ers 1988, pan redodd Tegid Roberts Farathon Dulyn mewn ychydig dros ddwy awr a 22 munud. Daeth Rob dros y llinell derfyn yn 36ain o'r holl filoedd oedd yn cystadlu, ac yn ddegfed yn y ras agored, a hynny mewn amser o 2 awr 21 munud a 41 eiliad. Ac roedd yn siomedig o fethu torri'r ddwy awr ac ugain munud!

Enillydd Tlws Coffa Pete Hughes



Serenna Williams o'r Waunfawr yw enillydd y Tlws hwn am 2017. Fe'i dyfarnwyd iddi mewn Pencampwriaeth Karate a gynhaliwyd yng Nghaernarfon ddechrau mis Mai. Roedd dros gant o blant yn cymryd rhan o glybiau yn Amlwch, Bangor, Nefyn a Chaernarfon. Mae clwb arbennig hefyd yn Ysgol y Gogarth, Llandudno. Mae Serenna yn aelod o Glwb Sakura Karate Caernarfon, ac fe ddyfarnwyd y Tlws iddi am ei dyfalbarhad, ei dycnwch a'i chefnogaeth i'r Clwb.

Tair Rownd Derfynol

Prin iawn yw'r rheolwyr sy'n aros gyda'r un tîm pêl droed am fwy na dau neu dri thymor. Ond yn Llanberis mae yna bartneriaeth o reolwr a'i ddirprwy a fu wrth y llyw am dros ddeng mlynedd. Dechreuodd Rodney Collins ac Adrian Roberts hyfforddi tîm o hogiau bach 5 a 6 oed gan symud efo'r tîm o un grŵp oedran i'r llall wedi hynny. O'r cychwyn, roedd yn amlwg fod yna griw o beldroedwyr talentog dan eu gofal, a than arweiniad y ddau buan iawn y datblygwyd tîm llwyddiannus a oedd yn chwarae pêl droed ardderchog. O oedran ifanc iawn, roedd y tîm yn pasio'r bêl yn gelfydd, ac anodd iawn oedd i dimau eraill ddod yn agos ato. Gemau 6 neu 7 yr ochr oedd y tîm yn eu chwarae i ddechrau wrth gwrs, cyn symud ymlaen i ffurfio tîm llawn, 11 yr ochr, dan 12 oed. Arhosodd 6 o'r hogiau bach 5 oed a oedd yn rhan o garfan gyntaf Rodney ac Adrian efo'i gilydd ar hyd y blynyddoedd, ac yr oedden nhw'n rhan o'r tîm dan 16 oed llwyddiannus eleni. Ymunodd dau neu dri o aelodau eraill y garfan bresennol â'r tîm o fewn blwyddyn neu ddwy, gyda'r gweddill yn ymuno un ai wrth i'r tîm dan 12 oed gael ei ffurfio neu yn y flwyddyn neu ddwy ddiwethaf.

O'r cychwyn, bu'r tîm yn llwyddiannus iawn, a thros y blynyddoedd ychydig iawn o gemau a gollwyd o gwbl, yn lleol yng Nghynghrair Gwyrfai neu wrth gystadlu am Gwpan Arfordir Gogledd Cymru i'r wahanol oeddrannau, dan 12, dan 14 a dan 16. Pan oedden nhw'n 11 a 13 a 15 oed roedd yr hogiau'n cystadlu yn erbyn timau a oedd flwyddyn yn hŷn na nhw. Yn lleol, doedd hynny'n gwneud fawr o wahaniaeth gan fod Llanberis yn dal i ennill y rhan fwyaf o'u gemau, ac fe lwyddon nhw i guro sawl tîm o wahanol rannau o'r Gogledd yn y cystadlaethau cwpan hefyd. Ond bob yn ail flwyddyn, pan oedden nhw'n 12 a 14 a 16 oed, roedd yr hogiau bron yn ddiuro.

Deirgwaith, felly, cyrhaeddodd tîm Llanberis rownd derfynol Cwpan Arfordir Gogledd Cymru. Bedair blynedd yn ôl, colli (1-0) mewn gêm agos iawn yng Nghonwy yn erbyn Cyffordd Llandudno fu hanes y tîm dan 12 oed. Ddwy flynedd yn ôl, colli (5-3) mewn gêm gyffrous ym Methesda yn erbyn Conwy wnaeth y tîm dan 14 oed. Wedi cyrraedd y rownd derfynol am y trydydd tro eleni, y gobaith oedd y gellid mynd un cam ymhellach yn erbyn Dinbych ar gae Penmaenmawr fore Sadwrn, Ebrill 29.

Ond am y trydydd tro, bu raid i'r hogiau fodloni ar weld y tîm arall yn codi'r cwpan. Dinbych sgoriodd gyntaf, cyn i Thomas Collins ddod â Llanberis yn gyfartal yn hanner amser. Wedi'r egwyl, sgoriodd Dinbych ail gôl, cyn i Dafydd Euros ddod â Llanberis yn gyfartal eto. Roedd yn ymddangos y byddai rhaid cael amser ychwanegol, ond fe sgoriodd Dinbych ddwy gôl arall funudau cyn diwedd y gêm. Gwaetha'r modd, doedd dim digon o amser i Lanberis geisio dod yn gyfartal eto.

Tair rownd derfynol, felly, a thair siom. Ond er gwaethaf hynny, mae'n rhaid i'r hogiau fod yn hynod o falch o'r hyn a gyflawnwyd dros y blynyddoedd. Ychydig iawn all ddweud iddynt gyrraedd tair rownd derfynol Cwpan Gogledd Cymru i'r oeddrannau iau hyn. (At hynny hefyd, roedd deg o'r hogiau hyn yn aelodau o dim Ysgol Brynrefail a enillodd Gwpan Ysgolion Cymru dan 15 oed y llynedd.)

Yn lleol, mae'r tîm wedi ennill pob gêm y tymor hwn, ac felly fe ddylai'r hogiau fod yn Bencampwyr Cynghrair Gwyrfai unwaith eto. Maent hefyd wedi cyrraedd rownd derfynol Cwpan y Gynghrair, ac felly mae gobaith am ennill y 'dwbl' eleni eto. Llongyfarchiadau mawr iawn iddynt ac i'r rheolwyr, Rodney ac Adrian.

Amser a ddengys beth fydd hanes yr hogiau'r flwyddyn nesaf, wrth iddynt symud o'r oeddrannau iau i'r oedran ieuencid a hyd yn oed i'r timau oedolion lleol. Mae'n bosibl mai eleni fydd y tro diwethaf i'r garfan gyfan fod efo'i gilydd. Os felly, gall yr hogiau a'u rheolwyr edrych yn ôl ar ddeuddeng mlynedd o hwyl a llwyddiant anghyffredin. Diolch yn fawr iawn ar ran yr hogiau a'u rhieni i Rodney ac Adrian am y cyfan a wnaethon nhw dros y blynyddoedd nid yn unig i hyfforddi ac arwain y tîm, ond i feithrin yn yr hogiau hefyd gyfeillgarwch, gofal am ei gilydd, a hunan ddisgyblaeth. Llongyfarchiadau mawr i'r ddau ohonynt, a diolch am eu gwaith caled.

Peldroediwr ifanc



Mae Cynan Sion Holdsworth o Lanrug, sy'n ddim ond 6 oed, wedi llwyddo i ennill ei le yn nhîm datblygiad Manchester City a Manchester United. Mae hyn yn dilyn ei lwyddiant gyda tîm y Felinheli ac Academi Bangor. Bydd yn ymarfer ddwywaith yr wythnos gyda Man City ac unwaith gyda Man U. Pob lwc i'r dyfodol Cynan - byddwn yn siŵr o ddilyn dy hanes!

Cwpan Meditel 2017

Waunfawr 1 – 0 Bro Goronwy

Sgoriwr – Shaun Roberts | Seren y gêm – Tomos Owen

Ar nos Fercher y 26ain o Ebrill bu i'r Beganifs gystadlu mewn rownd derfynol am y bedwaredd tymor yn olynol. Y tro hwn, Cwpan Meditel oedd i'w chipio ac wedi colli eu tair ffeinal diwethaf, roedd yr hogia'n benderfynol o ennill cwpan gyntaf i'r clwb.

Dechreuodd y gêm yn gyffrous gyda'r ddau dîm yn cystadlu'n ffyrnig o'r cychwyn. Llwyddodd Waun i gymeryd mantais o'u meddiant cynnar gan fynd ar y blaen wedi 5 munud! Methodd gôl –geidwad Bro Goronwy i afael ar ergyd bwerus Adam Jones, a Shaun Roberts oedd yno wedyn i saethu'r bêl i gefn y rhwyd!

Parhaodd yr hanner cyntaf i fod yn frwydr galed yn enwedig tuag at ddiwedd yr hanner pan lwyddodd Bro gael mwy o'r meddiant. Er hynny, roedd Waun yn amddiffyn yn gadarn ac yn amddifadu Bro o unrhyw gyfleoedd clir am y gôl. Roedd Marc Greasley a Rhodri Owen, y captan, yn trefnu'r tîm yn dda o ganol y cae a gorffennodd yr hanner cyntaf gyda Waun a Bro yn cael cyfleoedd. Ergydiodd asgellwr Bro eu cyfle gorau nhw heibio'r postyn ac aeth ergydion Adam a Shaun yn agos i Waun hefyd. 1-0 i Waun ar hanner amser. Y neges gan hyfforddwyr Waun yn ystod yr egwyl oedd i weithio'n galed ac ymddiried yng ngallu'r tîm. Roedd Bro yn cael tipyn mwy o'r meddiant yn yr ail hanner ac roedd gofyn i Gerallt Bracegirdle, ein Gôl-geidwad wneud dau neu dri arbediad anhygoel. Er holl feddiant Bro am fwyafriaf o'r ail hanner, roedd amddiffynwyr Waun yn gadarn dros ben. Aled Evans a Tomos Owen fel cewri ac yn ymdopi gyda pheryglon Bro yn effeithiol.

Roedd yna goesa' blinedig i'w gweld ar y cae ar ôl 70 munud o chwarae ac roedd hi'n amser i'r eilyddion gael cyfle i ychwanegu mwy o egni i Waun. Aeth Jac Evans a Rob Howarth ar yr asgellau a daeth Adam Jones a Ioan Gwynedd oddi ar y cae. Perfformiadau gweithgar dros ben gan y ddau ac yn haeddu eu gorffwys! Gweithiodd hyn yn dda ac roedd Elis Povey yn ddylanwad effeithiol ar y gêm wedi iddo symud i safle canolog a chreu partneriaeth prysur gyda Shaun, ein blaenwr.

Daeth cyfle gorau Bro ar ôl 80 munud pan ddisgynodd y bêl yn ffafriol i'w ymosodwr yn y cwrt cosbi. Tarodd y bêl i gefn y rhwyd ond yn ffodus fe gododd y llumanwr ei fflag gan ei fod yn camsefyll. Yna daeth cyfleoedd eraill i Waun, Jac Evans ac Elis Povey hefo ergydion agos cyn i Dylan Hughes ddod o fewn trwch blewyn i sgorio gyda'i ergyd yn taro'r trawst!

Chwythodd y dyfarnwr ei chwiban i orffen y gêm, 1-0 i'r Beganifs! Buddugoliaeth haeddianol wedi eu perfformiad arwrol a gwaith caled drwy gydol y tymor. O'r diwedd cafodd y captan Rhodri Owen afael ar gwpan cyntaf y Beganifs! Llongyfarchiadau mawr i bawb sy'n gysylltiedig â'r clwb a diolch enfawr i bawb ddaeth i gefnogi'r hogia' ar noson mor bwysig yn hanes y clwb!



GERAINT OWEN CARPEDI

CARPEDI • VINYLS • TEILS
CANOEDD O BATRYMAU I DDEWIS
A RHAI MEWN STOCK

Cil y Mynydd Waunfawr Gwynedd
A Uned 5 Gwyrfai Mill Bontnewydd

(01286)650552 Mob. 07712779475

Chwaraeon

CHWIP O FFEINAL

LLANRUG 2 Glantraeth 2 (Llanrug yn ennill 7-6 ar giciau o'r smotyn)



Denwyd rhyw 400 draw i Nantporth ar gyfer rownd derfynol Cwpan Mawddach – yr hen Gwpan Barritt – rhwng Llanrug a Glantraeth. Roedd y Monwysion eisioes wedi eu coronï'n bencampwyr a Llanrug ar rediad ddiguro o 16 gem a alluogodd tim Eithin Duon i orffen yn bedwerydd yn y tabl terfynol. Yr oedd y nifer o gemau roedd y ddau dim wedi eu chwarae mewn cyfnod byr yn ffactor amlwg i'r gem. Am gyfnod olaf y tymor roedd Llanrug wedi chwarae tair gem yr wythnos – hollol annerbyniol i unrhyw dim amatur. Roedd rhai yn absennol o garfan Llanrug ar gyfer y gem oherwydd hyn, ac yn ystod y gem aeth Eifion Williams a Dylan Owen – dau chwaraewr allweddol – oddi ar y maes gydag anafiadau. Arwydd arall o flinder oedd yr or-ddibyniaeth ar y bel hir. Rhedodd Alan Mark Owen yn ddiffino yn linnell flaen un dyn i Lanrug. Roedd y gystadleuaeth gorfforol ddi-ildio rhyngddo a Iolo Hughes yn un o uchafbwyntiau'r gem.

Torrodd y gem I fyny i dair rhan – y 90 munud cyntaf, amser ychwanegol ac yna y frwydyr ciciau o'r smotyn. Roedd y gem yn arwain at ddiwedd glo dramatig iawn.

Aeth Llanrug ar y blaen wedi 8 munud. Dafydd Noel yn cael ei faglu a'r capten Dylan Owen yn rhwydo ar yr ail gynnig wedi i golwr Glantraeth arbed y cynnig cyntaf – yr unig adeg i'r golgeidwaid gyffwrdd unrhyw un o'r 15 cic o'r smotyn yn y gem. Wedi 20 munud 1-1. Pel hir dros ben amddiffynwyr Llanrug ac un o ser y gem Mark Bridge yn codi'r bel dros ben Dylan Roberts o ochr y blwch cosb. 1-1 ar yr hanner.

Yn yr ail hanner roedd sawl hanner cyfle a'r aml eilyddio yn dangos effaith y blinder. Wedi 50 munud 2-1 i Glantraeth. Cyd basio da

ar ymyl cwrt cosbi Llanrug a'r arch sgoriwr Corrig McGonigle yn rhoi Glantraeth ar y blaen gyda'i 56 gol o'r tymor. Talent go iawn ydy'r hogyn ifanc yma. Daeth sawl hanner cyfle i'r ddau dim a golwr Glantraeth ar ei orau yn enwedig yn cadw peniad Alan Mark allan o'r rhwyd. Yna, dihangfa i Lanrug wedi 87 munud. Am ryw reswm, heb fod dan bwysau un o amddiffynwyr Glantraeth yn llawio yn y blwch. Gyda Dylan Owen oddi ar y cae, yr hen ben Dafydd Noel roddodd y gic gosb yng nghornel y rhwyd. 2-2, ac amser ychwanegol.

Rwyn deall rwan pam mae cyn gymaint o Phillips yn nhim Llanrug. Yn lle blinder, roedd Llanrug yn drydanol – roedd yr egwyl fer wedi tanio'r 'batteries'. Daethant yn agos sawl tro, a golwr Glantraeth ar ei orau. 2-2 ar y chwib olaf, ac ymlaen I'r ciciau o'r smotyn.

Roedd yr 8 gic gyntaf yn glasuron – 4-4 heb ddim gobaith i'r gol-geidwaid. Ymlaen daeth Alan Mark – a methu. Dyma'r cyfle euraidd i'r pencampwyr, ond tarodd Harry Galeotti y trawst. Dal yn gyfartal. Yna, 5-5, 6-6 a Sion Phillips yn tarannu cic rhif 7 Llanrug i do'r rhwyd. Tawelodd Nantporth. Ymlaen death Jamie Jones, cefnwr chwith Glantraeth – a methu! Ffrwydrodd Nantporth. Roedd y gwpan ar ei ffordd i Eithin Duon. Wedi eu rhediad rhyfeddol yn y mis olaf roedd hogia Llanrug yn haeddu cael tlws i ddangos am eu hymdrech. Dechreuodd y gem am 7.30pm a methwyd y gic olaf am 10.20pm. Blinder – pa flinder. Clod i Mark Jatt a'i gyd-reolwyr am ffrwyno'r pencampwyr ac am sbarduno ei chwaraewyr i un ymdrech fawr olaf. Traed i fyny rwan hogia!

Tair Rownd Derfynol



Cwpan Meditel 2017

